# Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2019

## DARPARIAETH YSGOL BLYNYDDOEDD CYNNAR, CYNRADD AC UWCHRADD I WASANAETHU ADAMSDOWN A SBLOT

16 Medi – 4 Tachwedd 2019



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Ceir fersiwn gryno o'r ddogfen hon yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn.



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


**Cyflwyniad**
- Beth mae'r llyfryn hwn yn ei drafod?
- Cefndir

**Beth ydym ni'n bwriadu ei wneud?**
- Darpariaeth uwchradd ac ôl-16
- Darpariaeth Cynradd a'r Blynyddoedd Cynnar
- Cyfleusterau cymynedol

**Ymgynghoriad**
- Sut ellwch chi ganfod mwy a rhoi gwybod i ni am eich barn?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon**

**Pam ydym ni'n cynnig y newidiadau hyn?**
- Darpariaeth o leoedd ysgol
- Darpariaeth ôl-16
- Cyflwr ac Addasrwydd
- Beth yw'r Rhaglen Ysgolion Band B 21ain Ganrif?

**Digonolrwydd lleoedd ysgol**
- Y Galw am Leoedd

**Pam ehangu ac amnewid Ysgol Uwchradd Willows?**
- Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

**Darpariaeth ôl-16**

**Darpariaeth Ysgolion Cynradd**
- Y galw am leoedd ledled y ddinas
- Ysgolion cynradd yn Adamsdown a Sblot
- Ysgolion a dosbarthiadau meithrin yn Adamsdown a Sblot

**Dalgylchoedd Ysgolion Gynradd ac Uwchradd Gyfrwng Saesneg**

**Newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar**

**Materion Tir gan gynnwys uwchraddio man agored cyhoeddus**

**Uwch-gynllun dangosol**

**Cyfleusterau a gynhwysir mewn ysgol**

**Ansawdd a Safonau**
- Estyn
- Categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru
- Ysgol Uwchradd Willows
- Ysgol Gynradd Baden Powell
- Ysgol Gynradd Gatholig St Alban
- Ysgol Feithrin Tremorfa

**Sut fyddai'r newidiadau yn yr ysgolion yn effeithio ar safonau?**
- Safonau
- Profiad addysgu a dysgu
- Cefnogaeth a chanllawiau gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Sut effeithir ar y ddarpariaeth feithrin?**

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**

- Sut effeithir ar gefnogaeth i ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Sut effeithir ar ddisgyblion sy'n cael Cinio Ysgol am Ddim?
- Sut effeithir ar ddisgyblion Lleiafrifoedd Ethnig?

**Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?**

- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion cynradd

**Trefniadau Derbyn**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Materion ariannol**

**Materion Adnoddau Dynol**

**Materion Trafnidiaeth**

- Llwybrau cerdded, sgwtera a beicio
- Cynllun Teithio Llesol

**Trefniadau Teithio'r Dysgwyr**

**Partneriaethau**

**Effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg**

**Trefniadau Llywodraethu**

**Cydraddoldebau**

**Effaith ar y gymuned**

**Aflonyddu Posib i Ddisgyblion**

**Trefniadau dros dro**

**Beth yw manteision y cynnig?**

**Anfanteision posibl y cynnig**

**Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig**

**Opsiynau eraill**

- Gwneud dim
- Ailwampio adeiladau presennol
- Amnewid yr adeiladau ar safleoedd presennol

**Cwestiynau cyffredin**

**Y camau nesaf, sut i fynegi eich barn a ffurflen adborth**

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad(au) statudol
- Adroddiad Gwrthwynebiadau
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysu'r penderfyniad

**Dweud eich dweud!**

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Atodiad 1**

- Argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Adamsdown a Sblot

**Atodiad 2**

Lluniau Gorllewin Caerdydd © Hannah Hodsman/Willmott Dixon Construction Limited

# Cyflwyniad

## Beth mae’r llyfryn hwn yn ei drafod?

Mae’r llyfryn hwn i rieni/gofalwyr, staff ysgol, llywodraethwyr ysgol ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/ gofalwyr plant sy’n mynychu, neu’n disgwyl mynychu, Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd Gatholig St Alban ac Ysgol Feithrin Tremorfa.

Mae’n amlinellu’r newidiadau a awgrymwn i’r ddarpariaeth uwchradd, cynradd a blynyddoedd cynnar sy’n gwasanaethu ardaloedd Adamsdown a Sblot, a’r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig.

## Cefndir

Yn 2017, nodwyd yr angen i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Band B y Cyngor, a’r angen i wella adeiladau ysgolion.

Roedd Ysgol Uwchradd Willows yn un o dri adeilad ysgol uwchradd y nodwyd eu bod mewn cyflwr mor wael fel y byddai’n rhaid eu hamnewid.

Yn dilyn hyn, nododd arolygon broblemau cyflwr yn Ysgol Gynradd Baden Powell, sydd angen buddsoddiad o fewn a thu hwnt i gyfnod buddsoddi Band B (2019 - 2024).

Ochr yn ochr â hyn, gofynnodd Archesgobaeth Caerdydd i’r Cyngor gyflwyno cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban fel rhan o gynigion ehangach ar gyfer darparu ysgolion sy’n gwasanaethu Adamsdown a Sblot. Cynigiwyd hyn oherwydd pryderon parhaus ynghylch hyfywedd Ysgol Gynradd Gatholig St Alban.

Mae’r cynigion hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i wneud newidiadau yn Adamsdown a Sblot fel rhan o’i weledigaeth i ddarparu ysgolion ysbrydoledig, cynaliadwy sy’n canolbwyntio ar y gymuned sy’n trawsnewid cyfleoedd i holl ddinasyddion Caerdydd.

Ysgol gynradd newydd a adeiladwyd yn ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Glan Morfa



# Beth ydym ni'n bwriadu ei wneud?

## Darpariaeth uwchradd ac ôl-16

Bwriedir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Willows o 1,121 o leoedd (7.4 Dosbarth Mynediad) i 1,200 o leoedd (8 Dosbarth Mynediad) i ddisgyblion 11-16 oed o fis Medi 2023
- Trosglwyddo Ysgol Uwchradd Willows i Barc Tremorfa ac amnewid yr adeiladau presennol am rai newydd o fis Medi 2023
- Sefydlu darpariaeth ôl-16 i hyd at 250 o ddisgyblion yn yr adeiladau newydd o fis Medi 2023

## Darpariaeth Cynradd a'r Blynyddoedd Cynnar

Bwriedir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, o fis Awst 2021
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Baden Powell o 420 o leoedd (2 Dosbarth Mynediad) i 630 o leoedd (3 Dosbarth Mynediad) o fis Medi 2021
- Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Baden Powell o 3-11 i 4-11 o fis Medi 2021
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Baden Powell i Barc Tremorfa ac amnewid yr adeiladau presennol am rai newydd o fis Medi 2023
- Cynyddu capasiti Ysgol Feithrin Tremorfa o 112 o leoedd i 128 o leoedd ac ehangu'r ystod o wasanaethau ar y safle gan gynnwys gofal plant a chefnogaeth rhianta Dechrau'n Deg, o fewn Canolfan Blant Integredig ar safle presennol Ysgol Feithrin Tremorfa a safle gwag Ysgol Gynradd Gatholig St Alban o fis Medi 2021

## Cyfleusterau cymunedol

Bwriedir:

- Uwchraddio cyfleusterau cymunedol yn Nhremorfa trwy amnewid man agored cyhoeddus yn Sblot, cyfleusterau cymunedol llawer gwell ar safle'r ysgol newydd, a chaeau newydd i'w defnyddio ar y cyd â Chlwb Rygbi St Alban a'r gymuned leol ehangach

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn darparu trosolwg manwl o'r cynigion hyn.

Byddwch yn ymwybodol y byddai angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn y gallai'r newidiadau sydd yn y ddogfen hon gael eu datblygu.

## Ymgynghoriad

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl beth maent yn ei feddwl o'r newidiadau rydym yn eu cynnig.

Mae sawl ffordd y gall pobl roi eu barn i ni.

### Dengys Tabl 1 isod pwy mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy:

| Tabl 1: Y grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni / gofalwyr | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol y De (CSCJES) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd yr Iaith Gymraeg |
| Trigolion lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Aelodau Lleol / Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS) | Undebau Llafur |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Darparwyr gofal plant |
| Awdurdodau Cyfagos | Mudiad Meithrin |
| Holl ysgolion Caerdydd | Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru |
| Estyn | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Cynghorau Cymuned | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Comisiynydd Plant | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Coleg Dewi Sant | Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) |

### Sut ellwch chi ganfod mwy a rhoi gwybod i ni am eich barn?

- Mae'r ddogfen ymgynghori lawn a dogfen gryno ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot
- Bydd copïau argraffedig o'r ddogfen hon a'r ddogfen grynhoi ar gael yn y Llyfrgell Ganolog a Hyb STAR.

- Byddwn yn cynghori teuluoedd â phlant yn Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Feithrin Tremorfa ac ysgolion cynradd yn Adamsdown a Sblot sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Byddwn yn cynghori teuluoedd â phlant 0-3 oed, sy'n byw yn Adamsdown a Sblot, sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus a sesiynau galw heibio y gallwch eu mynychu os ydych eisiau i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi, ac i chi holi cwestiynau. Rhestrir y rhain ar y dudalen nesaf.
- Bydd swyddogion y cyngor/cynrychiolwyr Esgobaethol yn cwrdd â Chyrff Llywodraethu a staff Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Feithrin Tremorfa.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r ysgol i ddarganfod beth mae disgyblion yn ei feddwl.
- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl.

Gweler manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori isod:

### Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori

| Natur yr Ymgynghoriad | Dyddiad/amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 17eg Medi, 9.30 – 11.00 am | Hyb STAR |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 20eg Medi, 10.00 – 11.30 am | Ysgol Gynradd Gatholig St Alban |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Gwener 27eg Medi, 10.00 – 11.30 am | Ysgol Uwchradd Willows |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 30ain Medi, 3.00 – 4.00 pm | Ysgol Gynradd Stacey |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 1af Hydref, 9.00 – 10.00 am | Ysgol Gynradd Moorland |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Mercher 2 Hydref, 6.30 – 8.00 pm | Ysgol Gynradd Gatholig St Alban |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 3 Hydref, 5.00 – 7.00 pm | Llyfrgell Ganolog |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 8 Hydref, 1.00 – 2.30 pm | Ysgol Feithrin Tremorfa |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Mercher 9 Hydref, 6.30 – 8.00 pm | Ysgol Uwchradd Willows |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 14 Hydref, 9.00 – 10.00 am | Ysgol Gynradd Adamsdown |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 22 Hydref, 3.30 – 5.00 pm | Ysgol Gynradd Baden Powell |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 1af Hydref, 10.00 -11.30 am | Neuadd yr Eglwys St Alban |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn cyfrif ac rydym am i chi ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl o'r newidiadau a gynigir yn y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu un o'r cyfarfodydd cyhoeddus neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar: www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein a geir ar dudalen 54.
- Cysylltu â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar (029) 2087 2720, trwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Sylwch fod yn rhaid i bob sylw a anfonir yn ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Llun 4ydd Tachwedd 2019.** Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

# Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer y defnyddir y termau canlynol drwy'r cyfan o'r ddogfen hon:

**Nifer Derbyn** - mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig o leiaf. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

**ADY** - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gall hyn fod oherwydd anawsterau dysgu, anableddau corfforol neu broblemau ymddygiadol. (Weithiau cyfeirir at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**BREEAM** (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) – mae hwn yn ddull asesu cynaliadwyedd a ddefnyddir i uwchgynllunio seilwaith ac adeiladau.

**Arian Cyfalaf ar gyfer Ysgolion** - arian a ddefnyddir i adeiladu adeiladau ysgol newydd neu i wella cyfleusterau presennol.

**Ysgolion Cymunedol** – ysgol gynradd neu ysgol uwchradd lle mae'r Cyngor yn trefnu derbyniadau ysgol.

**Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol** - ysgol gynradd neu uwchradd sydd fel arfer â chymeriad crefyddol â mwyafrif eglwysig ar y corff llywodraethu a lle mai'r Corff Llywodraethu yr ysgol yw'r awdurdod derbyn

**Dalgylch** - ardal y byddai ysgol gymunedol fel arfer yn ei gwasanaethu.Yng Nghaerdydd, mae gan blant sy'n byw yn yr ardal hon flaenoriaeth uwch ar gyfer mynediad i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal hon.

**DM** – mae Dosbarth Mynediad (Form of Entry) yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Felly mae ysgol 2DM yn ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn.

**Awdurdod Lleol** - sefydliad sy'n gyfrifol yn swyddogol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol.

**Data Nifer ar y Gofrestr** - nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol (heb gynnwys disgyblion oed meithrin).

**CYBLD** – **Cyfrifiad Ysgol Blynyddol** - Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, cesglir gwybodaeth a wiriwyd gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru yn mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, a data ar yr iaith Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, iaith gyntaf a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

**Gweithredu gan yr Ysgol (SA)** – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ADY.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+)** – Pan fo arbenigwyr allanol yn helpu athrawon ysgol neu ddosbarth i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ADY. Mae hyn yn ychwanegol neu'n wahanol i'r cymorth a ddarperir drwy Weithredu gan yr Ysgol.

**Ysgol Arbennig** - ysgol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad o ADY.

**Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae gan blentyn sydd â datganiad o ADY anawsterau dysgu sydd angen cymorth arbennig. Golyga hyn:

- bod gan y plentyn anhawster dysgu llawer mwy na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed, neu
- bod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

**Lleoedd gwag** – lleoedd gwag/heb eu llenwi yn yr ysgol.

**Hysbysiad Statudol** – hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol o'r cynnig terfynol. Ni wneir hyn oni bai y ceir penderfyniad gan Gabinet y Cyngor i fwrw ymlaen â chynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hwn yn ofynion cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd



## Pam ydym ni'n cynnig y newidiadau hyn?

Nod y cynigion yw cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o ad-drefnu a buddsoddi a ddyluniwyd i drawsnewid y cynnig addysg sydd ar gael ar hyn o bryd yn Adamsdown a Sblot.

Gall adeiladau ysgol newydd chwarae rhan allweddol nid yn unig fel lleoedd i ysbrydoli ac addysgu ein plant, ond hefyd fel canolfannau dysgu bywiog a deinamig lle mae pob oedran yn gallu dysgu a thyfu, ac a ddefnyddir nid yn unig gan ddisgyblion ond gan deuluoedd a'r gymuned ehangach.

Byddai ychwanegu darpariaeth ôl-16 ar safle arfaethedig Ysgol Uwchradd Willows yn darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc leol sy'n awyddus i symud ymlaen i addysg bellach a chael mynediad at addysg alwedigaethol yn eu cymdogaeth.

### Darpariaeth lleoedd ysgol

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu digon o leoedd ysgol ar gyfer disgyblion o bob oed.

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion pob disgybl, a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn darparu addysg o'r ansawdd orau mae'n bwysig bod cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.  Mae hyn yn golygu paru nifer y plant â nifer y lleoedd ysgol mor agos â phosib.

### Darpariaeth ôl-16

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Uwchradd Willows yn ysgol 11-16 oed heb unrhyw ddarpariaeth addysg ôl-16 ar y safle.  Mae disgyblion sy'n cwblhau addysg uwchradd yn Willows yn trosglwyddo i ystod eang o ddarparwyr academaidd a galwedigaethol.

Byddai sefydlu darpariaeth ôl-16 newydd ar gyfer disgyblion sy'n byw yn Adamsdown a Sblot yn cefnogi awydd y Cyngor i ddarparu amgylcheddau dysgu yr 21ain Ganrif a gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc mewn modd teg ledled y ddinas. Byddai'r amgylchedd newydd a chydweithio â phartneriaid yn creu'r amgylcheddau heriol, cefnogol ac ysgogol sy'n annog dyhead a chyflawniad.

### Cyflwr ac Addasrwydd

Yn ogystal â chael y nifer iawn o leoedd mewn ysgolion, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfleusterau ysgol yn addas i'r pwrpas. Rhaid i ysgolion gefnogi cyflwyno dysgu o ansawdd uchel.

Mae gan Gaerdydd dros 127 o adeiladau ysgol o wahanol oed a chyflwr. Mae nifer o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig mewn cyflwr gwael. Oherwydd cyflwr presennol ein hadeiladau, mae angen gwario llawer iawn o arian ar faterion cynnal a chadw a phroblemau cyflwr.  Ar hyn o bryd mae ôl-groniad cynnal a chadw mawr o tua £68 miliwn; mae tua £8 miliwn o hwn yn waith i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gwario tua £4.7 miliwn bob blwyddyn ar adnewyddu asedau ysgol.

Yn 2018-19, dyrannodd y Cyngor £25 miliwn ychwanegol i'r gyllideb adnewyddu asedau dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn dyrannu'r arian ychwanegol hwn ar sail blaenoriaeth. Fe'i cyfyngir yn bennaf i gadw eiddo yn ddiogel ac yn ddwrglos.

## Beth yw Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen fuddsoddi cyfalaf fawr, strategol hir dymor. Fe'i hariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ac mae'n anelu at greu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Rhedodd rhan gyntaf y Rhaglen (Band A) o 2014 tan fis Mawrth 2019.

Mae Caerdydd wedi elwa'n fawr o fuddsoddiad yn y rhaglen Ysgolion "21ain Ganrif" gychwynnol gyda buddsoddiad o tua £164 miliwn mewn ysgolion i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Defnyddiwyd cronfeydd Band A yng Nghaerdydd i gyflenwi dwy ysgol uwchradd newydd, Eastern High (mewn cydweithrediad â Choleg Caerdydd a'r Fro) ac Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd a chwe ysgol gynradd newydd (cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg). Cafodd Ysgol Gynradd Adamsdown ac Ysgol Glan Morfa fantais buddsoddiad o Raglen Band A.

Dechreuodd ail ran yr arian hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd yn cynllunio rhaglen fuddsoddi o oddeutu £284 miliwn, a ariennir ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Mae cynigion Band B Caerdydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- darparu digon o leoedd ysgol yn y lle iawn ar draws y ddinas
- darparu cyfleusterau addysgol o ansawdd uchel a fydd yn bodloni gofynion amrywiol yr 21ain Ganrif
- gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau addysg er budd y gymuned ehangach ledled Caerdydd.
- sicrhau'r gwerth gorau am arian

Erbyn 2024, mae rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd i fod i gyflenwi:

- 5 ysgol uwchradd newydd neu estynedig
- 4 ysgol arbennig newydd
- 4 ysgol gynradd newydd

# Darpariaeth Ysgolion Uwchradd Cymunedol

## Y Galw am Leoedd

Dros y pum mlynedd diwethaf, cynyddodd nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7) yng Nghaerdydd.

Daw'r data cyfrifiad ysgolion diweddaraf a ddilyswyd ar adeg eu cyhoeddi o fis Ionawr 2018. Bydd y wybodaeth cyfrifiad wedi'i diweddaru ar gyfer Ionawr 2019 ar gael yn electronig ar wefan Cyngor Caerdydd yn nhymor yr Hydref 2019 ar www.caerdydd.gov.uk/AdamsdownSplottschools.

Awgryma'r rhagamcanion sy'n seiliedig ar y data cyfrifiad ysgol diweddaraf (CYBLD) a dderbyniwyd yn 2018:

- y bydd nifer y disgyblion sy'n dechrau Blwyddyn 7 mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu, ac
- y bydd mwy o ddisgyblion na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd hyd at fis Medi 2023 o leiaf.

Ym mis Medi 2024, rhagamcenir y bydd y galw cyffredinol am leoedd gan ddisgyblion sy'n byw mewn tai presennol yn gostwng. Fodd bynnag, cynlluniwyd nifer o safleoedd tai newydd ar draws y ddinas. Mae'r rhain yn cynnwys tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd mwy o ddisgyblion yn parhau na'r nifer o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ein hysgolion y tu hwnt i 2024.

Rhagamcenir bod yr ardaloedd sydd â'r diffyg lleoedd mwyaf yn ardal ganolog y ddinas. Mae tair o'r ysgolion uwchradd yn yr ardal ganolog hon, sef Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Willows, hefyd mewn cyflwr gwael iawn.

Dengys y map ar dudalen 12 ddalgylch y pum ysgol uwchradd gymunedol yn rhaglen Band B Caerdydd.

Mae rhagolygon ledled y ddinas yn dangos galw cynyddol am leoedd mynediad i'r ysgolion uwchradd.

Yn ystod y cyfnod 2019 - 2023, bydd nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn y tai presennol yn cynyddu o tua 200 o blant.

Bydd angen ehangu capasiti cyfunol yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn ardal ganol y ddinas o oddeutu 1,200 o leoedd y flwyddyn i tua 1,320 o leoedd ym mhob grŵp blwyddyn. Byddai hyn yn cynnwys y nifer gynyddol ddisgwyliedig o blant ar draws yr ardal gyfun. Byddai hyn hefyd yn darparu lefel o leoedd dros ben er mwyn caniatáu unrhyw gynnydd pellach.


Ar gyfartaledd, yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, adeiladwyd 733 o dai yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Disgwylir i'r lefel twf hwn barhau. Bydd llawer o dwf Caerdydd yn y dyfodol mewn cymunedau newydd ar ddatblygiadau maes glas ar gyrion Caerdydd. Cynigiwyd ysgolion newydd ar gyfer y datblygiadau hyn.

Disgwylir i dros 26,000 o gartrefi newydd gael eu hadeiladu yng Nghaerdydd yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r tai posibl hyn naill ai eisoes â chaniatâd cynllunio, yn ceisio cytundeb cyfreithiol, neu wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n cynnwys dros 10,000 o gartrefi ar safleoedd tir llwyd.

Bydd mwy o blant yn byw mewn tai newydd yn ogystal â mwy o blant yn byw mewn tai presennol. Felly, bydd angen lleoedd ysgol uwchradd ychwanegol yn nalgylchoedd yr ysgolion presennol.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cwrdd â rhan o'r galw cynyddol am leoedd ysgol uwchradd trwy ehangu Ysgol Uwchradd Willows.

## Dengys y map isod ddalgylch y pum ysgol uwchradd gymunedol yn rhaglen Band B Caerdydd.



# Pam ehangu ac amnewid Ysgol Uwchradd Willows?

## Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Dengys Tabl 3 isod yr ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu'r ardal:

| Enw'r Ysgol | Cyfrwng iaith a chategori ysgol | Ystod oedran | Nifer Derbyn Cyhoeddedig |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | Ysgol Uwchradd Gymunedol cyfrwng Saesneg | 11-16 Oed | 224 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd | Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg | 11-16 Oed | 176 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant | Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg | 11-18 Oed | 240 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Ysgol Uwchradd Gymunedol cyfrwng Cymraeg | 11-18 Oed | 240 |

Mae plant o ddalgylch Ysgol Uwchradd Willows hefyd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill er bod nifer y plant sy'n gallu gwneud hynny yn debygol o leihau wrth i'r boblogaeth ledled y ddinas gynyddu.

Mae'r llefydd ysgol sydd wedi eu cymryd yn ddiweddar adeg mynediad i'r flwyddyn Dderbyn yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows ar gyfartaledd yn 348 fesul grŵp blwyddyn. Amrywiodd hyn rhwng 2013 a 2018 gyda'r nifer isaf yn 334 o leoedd a'r uchaf yn 356. Disgwylir i nifer debyg o blant gymryd lleoedd yn y dyfodol o'r tai presennol. Fodd bynnag, nid oes data ar gael eto ar gyfer grwpiau blwyddyn sy'n dechrau addysg gynradd y tu hwnt i 2021/22.

Ar gyfartaledd, mae 148 o blant y grŵp blwyddyn wedi trosglwyddo i ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg ac mae 80 o blant fesul grŵp blwyddyn wedi trosglwyddo i ysgolion uwchradd ffydd cyfrwng Saesneg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r plant sy'n weddill yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg. Bydd y niferoedd cyffredinol yn cynyddu yn ystod cyfnod buddsoddi Band B wrth i nifer y disgyblion sy'n cyrraedd oedran ysgol uwchradd gynyddu.

Fel arfer, mae mwyafrif y plant ym Mlwyddyn 6 yn Adamsdown a Sblot yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 (tua 97%). Golyga hyn bod nifer y plant yn y grŵp oedran Blwyddyn 6 yn aros tua'r un faint â'r nifer yng ngrŵp oedran Blwyddyn 7 y flwyddyn nesaf. Mae bron pob un o'r plant sy'n byw yn yr ardal yn dewis cofrestru mewn ysgol gymunedol neu ffydd yng Nghaerdydd pan fyddant yn trosglwyddo i'r uwchradd.

Awgryma'r rhagolygon y bydd angen rhwng 248 a 283 o leoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (cymuned a ffydd) yn yr ardal bob blwyddyn yn ystod cyfnod buddsoddi Band B. Byddai tua 76 o'r lleoedd hyn yn cael eu cymryd mewn ysgolion ffydd. Byddai'r 172-207 o blant sy'n weddill yn cymryd lleoedd mewn ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg.

Noda Tabl 4 isod y nifer net o leoedd y gellid fod eu hangen i ateb y galw am leoedd cymunedol a sylfaen cyfrwng Saesneg ym mhob dalgylch ysgol uwchradd yn y ddinas (tai presennol yn unig)

### Tabl 4: Y galw a ragwelir am leoedd mewn unrhyw Ysgol Uwchradd Gymunedol cyfrwng Saesneg ym mhob dalgylch Ysgol Uwchradd Gymunedol cyfrwng Saesneg (ar fynediad i Flwyddyn 7)

| | Rhagolygon wedi eu seilio ar ddata CYBLD 2018 – disgyblion wedi cofrestru mewn addysg gynradd | | | | | | | Rhagolwg - data GIG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Ysgol Uwchradd Cantonian | 111-115 | 142-143 | 107-111 | 130-136 | 113-116 | 132-136 | 141-156 | 164-178 |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 251-255 | 255-259 | 272-296 | 264-279 | 272-274 | 291-327 | 287-306 | 266-301 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 212-225 | 249-282 | 279-294 | 235-241 | 301-311 | 252-289 | 217-239 | 194-211 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 101-104 | 87-87 | 79-84 | 78-78 | 85-92 | 62-66 | 79-80 | 78-80 |
| Ysgol Uwchradd Eastern | 203-205 | 232-235 | 216-223 | 212-220 | 202-214 | 228-249 | 177-187 | 204-213 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | 314-318 | 360-364 | 367-368 | 337-346 | 360-369 | 346-356 | 286-295 | 342-353 |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | 344-351 | 367-376 | 367-375 | 339-350 | 355-382 | 343-375 | 296-323 | 312-337 |
| Ysgol Gyfun Radur | 139-146 | 149-168 | 180-189 | 175-220 | 162-196 | 160-184 | 168-194 | 156-192 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | 328-350 | 302-319 | 317-323 | 305-311 | 329-348 | 348-358 | 313-318 | 296-314 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 171-172 | 166-166 | 171-171 | 182-184 | 185-194 | 201-205 | 192-196 | 171-182 |
| **Cyfanswm y galw am leoedd** | **2205-2212** | **2350-2358** | **2380-2409** | **2290-2334** | **2416-2443** | **2415-2494** | **2212-2241** | **2243-2301** |

Ychydig o ddatblygiadau tai sylweddol sydd ar y gweill ar gyfer dalgylch Ysgol Uwchradd Willows, gyda chaniatâd cynllunio amlinellol neu lawn, a fyddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y plant.

Fodd bynnag, mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio yn agos at ddalgylch Ysgol Uwchradd Willows. Mae gan sawl un eisoes ganiatâd cynllunio amlinellol neu lawn a fyddai'n cynyddu nifer y plant yn sylweddol:

- Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, Grangetown
- Arglawdd Clive Lane
- I'r gorllewin o Dumballs Road, Butetown
- Marchnad Ffrwythau Bessemer, Grangetown
- Safle Gwaith Nwy, Ferry Road, Grangetown
- Porth Teigr (Basn y Rhath), Butetown

Er bod cyfraniadau datblygwyr wedi'u sicrhau trwy gytundeb a106 i ddarparu ar gyfer y disgyblion oed ysgol uwchradd o rai o'r datblygiadau preswyl hyn, mae eraill ar gamau cynharach o'r cynllunio a byddai disgwyl iddynt gynyddu nifer y disgyblion yn yr ardal ymhellach.

Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar deuluoedd mewn tai presennol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Fitzalan yn dangos y byddai angen capasiti ysgol o 14 i 15 dosbarth mynediad i ateb y galw am leoedd mewn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg yng Nghaerdydd.

Mae cynigion i amnewid yr Ysgol Uwchradd Fitzalan bresennol gydag Ysgol yr 21ain Ganrif 10 Dosbarth Mynediad newydd, yn cael eu datblygu, sy'n golygu y byddai rhai plant yn nalgylch presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan angen lleoedd mewn ysgolion cyfagos eraill.

Byddai ailadeiladu Ysgol Uwchradd Willows fel ysgol uwchradd o chwech i saith dosbarth mynediad yn darparu 180-210 o leoedd ym mhob grŵp blwyddyn. Byddai hyn yn ddigon o leoedd i wasanaethu dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Willows yn unig.

Ni fyddai cadw'r capasiti presennol o 7.4 Dosbarth Mynediad yn caniatáu trefnu grwpiau blwyddyn yn effeithlon yn yr ysgol.

Cynigir ehangu Ysgol Uwchradd Willows i 8 Dosbarth Mynediad gan y byddai hyn yn:

- creu trefniant dosbarth effeithlon
- darparu capasiti digonol i ganiatáu lle i'r nifer rhagweladwy o blant lleol sydd angen lle mewn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg, a
- chyfrannu cyfran o'r lleoedd ychwanegol sydd eu hangen i ateb y galw a ragwelir o'r ardal ehangach, megis o ddalgylch Ysgol Uwchradd Fitzalan.

## Darpariaeth ôl-16

'Addewid Caerdydd' (www.cardiffcommitment.co.uk/cy) yw strategaeth ymgysylltu a dilyniant ieuenctid y Cyngor. Mae'n nodi sut y bydd y Cyngor ac ystod eang o bartneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc. Amlinella mai'r nod yw i bob person ifanc yng Nghaerdydd fod naill ai mewn cyflogaeth neu addysg bellach a hyfforddiant ar ôl gorffen yr ysgol.

Mae cynigion y Cyngor ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a strategaeth Caerdydd 2020, yn nodi'n glir y cysylltiad rhwng gwella'r amgylchedd ar gyfer dysgu a chodi safonau cyflawniad.

Mae'r Cyngor yn ceisio galluogi i nifer fwy o ddysgwyr symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth gwblhau addysg uwchradd.

Yn 2017/18, cofrestrodd 34% o ddisgyblion sy'n gadael Ysgol Uwchradd Willows mewn addysg bellach yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, 29% yng Ngholeg Dewi Sant, 21% yn ACT a 6% gyda darparwyr addysg neu hyfforddiant eraill. Yn y garfan hon, dim ond 2% (dau ddisgybl) a drosglwyddodd i chweched dosbarth mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd.

Mae cymhariaeth o ddata cyfrifiad ysgolion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12 ar gyfer 2017 a 2018 yn nodi:

- Mae canran y dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Willows, a nododd eu bod yn symud ymlaen i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol gymunedol yng Nghaerdydd (2%) yn isel iawn o'i chymharu â chyfartaledd y ddinas gyfan (c50%). Mae mwyafrif helaeth y disgyblion o Ysgol Uwchradd Willows yn cymudo i goleg chweched dosbarth neu ddarparwr hyfforddiant.
- Mae canran y dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows ac yn trosglwyddo o unrhyw ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol (tua 30%) hefyd yn is na'r cyfartaledd.

Dengys gwybodaeth mynediad ysgol (dewis rhieni) a chyflwyniadau apêl ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf bod nifer o rieni sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows yn cyfeirio at bresenoldeb darpariaeth chweched dosbarth fel ffactor pan yn ceisio mynediad i ysgolion eraill yn hytrach nag Ysgol Uwchradd Willows, fel eu hysgol uwchradd dalgylch lleol.

Awgryma ymchwil na ddylai lleiafswm maint y ddarpariaeth chweched dosbarth fod yn llai na 200 o leoedd. Mae llawer o'r cyllid y mae ysgol yn ei dderbyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn yr ysgol. Mae swm y cyllid ar gyfer disgyblion yn y chweched dosbarth (ôl-16) yn llai nag yw ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd 7–11 (11-16 oed).

Dylai chweched dosbarth o fwy na 200 o leoedd ddarparu lefel o gyllid a fyddai'n cefnogi'r ystod o gyrsiau a chymwysterau perthnasol heb yr angen am gymhorthdal ariannol o gyllid 11-16 neu ffynonellau amgen.

Byddai'r sefydliad arfaethedig o ddarpariaeth ôl-16 o 250 o leoedd ar yr un safle â'r ysgol yn ddatblygiad cadarnhaol i'r ardal a gallai alluogi tua 52% o ddisgyblion Blwyddyn 11 i aros mewn addysg ar y safle newydd (pe bai'r ysgol wedi'i thanysgrifio'n llawn).

Byddai'r ddarpariaeth ôl-16 newydd yn cael ei chomisiynu gan ddarparwr ôl-16 presennol a byddai ystod oedran Ysgol Uwchradd Willows yn aros yn 11-16.

Byddai sefydlu cynnig ôl-16 ar safle Tremorfa yn rhoi cyfle i ystyried sut i adeiladu ar y cynnig ôl-16 cyfredol sydd ar gael yn lleol a pha fylchau y gellid mynd i'r afael â nhw sy'n ychwanegu gwerth i'r ddinas yn ei chyfanrwydd.

Byddai hyn yn caniatáu i nifer fwy o ddisgyblion fynd ymlaen i ddarpariaeth academaidd a/neu alwedigaethol ôl-16 yn dilyn eu haddysg statudol, heb gyfaddawdu ar ddarparwyr hyfforddiant academaidd a galwedigaethol eraill sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gefnogi datblygiad cyfleoedd rhwng ysgolion a busnesau. Byddai hyn yn helpu i greu cronfa gynaliadwy o dalent ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol. Byddai'n lledaenu sgiliau ledled y ddinas. Enghraifft o hyn yw'r Bartneriaeth Addysg Greadigol a sefydlwyd rhwng Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd a nifer o sefydliadau partner.

Datblygwyd y bartneriaeth i ddarparu cynnig newydd cyffrous i bobl ifanc ac i ymateb i'r cyfleoedd cyflogaeth a gyflwynir gan yr 'economi greadigol' sy'n ehangu fel un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Byddai'r buddsoddiad arfaethedig i ddatblygu a chyflenwi darpariaeth ôl-16 leol ar gyfer Adamsdown a Sblot yn adeiladu ar y Bartneriaeth Greadigol lwyddiannus a gwneud y mwyaf o'r dull ffres o ddatblygu a chyflenwi ystod arbenigol o gyfleoedd dysgu mewn cyfleusterau pwrpasol sydd yn eu lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Byddai'n cyflwyno ystod newydd a phwrpasol o gyfleoedd cyffrous i faes lle mae pobl ifanc yn draddodiadol wedi gorfod teithio i rywle arall i gael mynediad at unrhyw ddarpariaeth ôl-16 academaidd neu alwedigaethol.

Golyga partneriaethau diwydiant bod dysgwyr yng Nghaerdydd yn gallu elwa o gwricwlwm cyfoethog sy'n darparu cyfleoedd dysgu 'byd go iawn'. Mae'r cwricwlwm a'r pynciau a gynigir wedi'u cynllunio i gynnal ffocws cryf ar sgiliau sy'n cefnogi pobl ifanc i ddod yn barod am waith, e.e. canolbwyntio ar gyfathrebu, gweithio mewn tîm, hyblygrwydd, gallu i addasu ac entrepreneuriaeth.

Mae hyn hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn elwa ar well dealltwriaeth o'r gyrfaoedd sydd ar gael yn y sector i wneud dewisiadau mwy gwybodus. Byddai hyn yn cefnogi arloesi a datrys problemau, gan annog myfyrwyr i fentro dan reolaeth a datblygu hyder i fynd i mewn i farchnad gyflogaeth sy'n newid yn gyflym.

Byddai'n rhaid i unrhyw ddarparwr ôl-16 a gomisiynir i ddarparu addysg ar safle Tremorfa ddangos ei ymrwymiad cadarn i weithio mewn partneriaeth â diwydiant (i'w bennu a'i gytuno) er mwyn:

- Rhoi diwydiant wrth galon dysgu, datblygu datrys problemau, dycnwch, gwytnwch ac arloesedd, a hyrwyddo creadigrwydd trwy gysylltiadau rhwng ysgolion ac economi sector ddynodedig.
- Ehangu gorwelion fel bod pob person ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan lawn ym mywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Caerdydd.
- Sicrhau bod gweithgaredd busnes sy'n adlewyrchu wyneb newidiol Cymru yn graidd i'r cynnig.

Wrth wneud hyn byddem yn disgwyl gwireddu'r buddion canlynol:

- Byddai Pobl Ifanc yn cael eu hysbrydoli gan gyfleoedd sydd wedi'u cynllunio i feithrin eu hannibyniaeth a datblygu eu sgiliau i fod yn ddysgwyr gwydn, arloesol sy'n gallu datrys problemau.
- Byddai cymunedau'n cael eu grymuso trwy brojectau a gweithgareddau ystyrlon gyda chyflogwyr a phartneriaid yn y sector dynodedig.
- Byddai'r ddinas yn cael ei gwella gan economi ddeinamig wedi'i seilio ar system addysg fywiog.

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd



# Darpariaeth Ysgolion Cynradd

## Y galw am leoedd ledled y ddinas

Cynyddodd y galw am leoedd ar fynediad i addysg gynradd ledled y ddinas yn y cyfnod 2006 - 2016, o 3,400 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2006 i uchafbwynt o 4,368 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2016. Ym mis Ionawr 2017 a 2018, y nifer o ddisgyblion a aeth i addysg gynradd oedd 4,366 a 4,128, yn y drefn honno.

Dengys derbyniadau rhagamcanol o'r tai presennol, yn seiliedig ar y data cyfrifiad ysgol diweddaraf (CYBLD) a dderbyniwyd yn 2018, y bydd nifer y disgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg ledled y ddinas yn aros ar lefelau uchel tebyg o tua 4,150 o ddisgyblion tan beth bynnag Ionawr 2021, y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer.

Fodd bynnag, o ganlyniad i gynnyrch disgyblion o'r datblygiadau tai newydd, rhagwelir y bydd angen darpariaeth ysgol ychwanegol i ddarparu lleoedd ysgol sy'n lleol i'r tai newydd.

Mae nifer o ddatblygiadau preswyl sylweddol ar y gweill yn Adamsdown a Sblot, sydd â chaniatâd cynllunio amlinellol, a fyddai'n cynyddu'r boblogaeth o blant yn sylweddol.

## Ysgolion cynradd yn Adamsdown a Sblot

Rhestrir yr ysgolion cynradd sydd yn Adamsdown a Sblot isod.

**Tabl 5: Ysgolion cynradd yn Adamsdown a Sblot**

| Enw'r Ysgol | Cyfrwng iaith a chategori ysgol | Ystod oedran | Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg | 3 -11 Oed | 60 |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg | 3 -11 Oed | 60 |
| Ysgol Gynradd Moorland | Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg | 3 -11 Oed | 60 |
| Ysgol Gynradd Stacey | Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg | 3 – 11 Oed | 30 |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Alban | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg | 4 – 11 Oed | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg | 3 – 11 Oed | 30 |
| Ysgol Glan Morfa | Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Cymraeg | 3 – 11 Oed | 60 |

Y dull mwyaf addas o ddadansoddi'r galw am leoedd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot, yw defnyddio dalgylchoedd ysgolion cynradd Adamsdown, Baden Powell, Moorland a Stacey sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Willows.

Mae'r galw cyffredinol am leoedd ysgolion cynradd yn sefydlog, ond mae'r galw yn amrywio rhwng dalgylchoedd ysgolion cynradd unigol.

Gellir gweld manylion y defnydd diweddar a rhagamcanol o leoedd ysgolion cynradd yn Nhablau 6 i 8 yn Atodiad 1.

Mae'r nifer rhagamcanol o ddisgyblion sy'n dechrau mewn Dosbarth Derbyn yn yr ardal yn amrywio, ond mae ar lefelau tebyg yn y tri chymeriant nesaf. Awgryma hyn bod nifer y lleoedd ysgol a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn ardal Adamsdown a Sblot yn gytbwys.

Mae'r galw rhagamcanol cyfun am ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Willows ychydig yn fwy na'r nifer gyfun o leoedd sydd ar gael (210) oherwydd bod rhai teuluoedd yn dewis lleoedd mewn ysgolion cyfagos.

Yn ogystal, mae'r galw cyfunol a ragwelir am leoedd mewn ysgolion cynradd ffydd yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows (60), wrth i nifer o blant sy'n byw yn yr ardal fanteisio ar leoedd yn Ysgol Gynradd Gatholig St Pedr gerllaw.

## Ysgolion a dosbarthiadau meithrin yn Adamsdown a Sblot

Mae pob un o'r pedair ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yn Adamsdown a Sblot (Ysgolion Cynradd Adamsdown, Baden Powell, Moorland a Stacey) yn gweithredu dosbarth meithrin.

Darperir lleoedd meithrin Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa, sy'n gwasanaethu dalgylch tebyg i ardal Ysgol Uwchradd Willows, a dalgylchoedd cyfun y pedair ysgol gynradd gymunedol Saesneg.

Hefyd, darperir lleoedd meithrin sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville, Ysgol Gynradd Gatholig St Pedr, ac Ysgol Feithrin Tremorfa.

Mae Ysgol Feithrin Tremorfa wedi'i lleoli yn nalgylch Ysgol Gynradd Baden Powell ar safle gerllaw Ysgol Gynradd Gatholig St Alban. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithredu fel ysgol feithrin gymunedol cyfrwng Saesneg bwrpasol, ac yn darparu addysg feithrin i hyd at 112 o leoedd i blant 3-4 oed. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig gofal plant cofleidiol ar y safle, ynghyd â chyrsiau i rieni a chaffi cymunedol wythnosol yn ystafell gymunedol yr ysgol.

Nid yw Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn darparu lleoedd meithrin, ond mae safle'r ysgol gerllaw safle Ysgol Feithrin Tremorfa, ac mae mwyafrif y disgyblion sy'n cael eu derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig St Alban wedi mynychu Ysgol Feithrin Tremorfa.

Mae Tabl 9 (isod) yn crynhoi'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin yn Adamsdown a Sblot yn y cyfnod 2016-2019, ar y raddfa frig o gymeriant yn nhymor yr haf.

**Tabl 9: Nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin yn Adamsdown, tymor yr haf 2016 – 2019**

| Enw'r Ysgol | Lleoedd meithrin | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | 80 | 48 | 74 | 70 | 78 |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | 56 | 56 | 55 | 56 | 43 |
| Ysgol Gynradd Moorland | 64 | 64 | 63 | 64 | 64 |
| Ysgol Gynradd Stacey | 64 | 50 | 59 | 52 | 54 |
| Ysgol Gynradd Tredegarville | 48 | 44 | 47 | 42 | 46 |
| Ysgol Feithrin Tremorfa | 112 | 113 | 88 | 81 | 90 |
| Cyfanswm | 424 | 375 | 386 | 365 | 375 |

At ei gilydd, mae digon o leoedd dosbarth meithrin ac ysgol feithrin i ddiwallu'r angen cyfredol a rhagamcanol ar draws ardaloedd Adamsdown a Sblot, gyda rhywfaint o leoedd gwag ar gael i ymateb i unrhyw newid yn y dyfodol o ran lleoedd addysg feithrin.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgol feithrin yn amrywio mwy nag ar adeg mynediad i'r Dosbarth Derbyn gan nad yw addysg feithrin yn orfodol. Fodd bynnag, mae cymharu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn dosbarthiadau Derbyn â'r nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn dosbarthiadau Meithrin yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu bod nifer y lleoedd sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer y boblogaeth ddisgyblion a ragwelir.


I grynhoi, mae capasiti presennol dosbarthiadau meithrin ac ysgolion cynradd yn ddigonol i bob pwrpas i ateb y galw am leoedd yn nalgylch presennol Ysgol Uwchradd Willows yn ystod cyfnod Band B. Felly, ni ddylai unrhyw gynigion a gyflwynir geisio lleihau na chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgol gynradd newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu'n ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Glan Morfa





# Dalgylchoedd Ysgolion Gynradd ac Uwchradd Gyfrwng Saesneg




| Dalgylchoedd Ysgolion Gynradd | |
|---|---|
| Dalgylch YG Baden Powell | Dalgylch YG Moorland |
| Dalgylch YG Adamsdown | Dalgylch YG Stacey |

| Dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd |
|---|
| Dalgylch Ysgol Uwchradd Willows |

# Newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgolion cynradd

## Ysgol Gynradd Baden Powell

Mae Ysgol Gynradd Baden Powell wedi'i lleoli yn Muirton Road, Tremorfa ac mae'n darparu 420 o leoedd (2 Ddosbarth Mynediad) i blant 4 - 11 oed, a 56 o leoedd meithrin i blant rhwng 3 a 4 oed.

Ym mis Mai 2019, roedd 349 o ddisgyblion wedi cofrestru mewn addysg amser llawn yn yr ysgol, a 43 o ddisgyblion wedi cofrestru yn y dosbarth meithrin. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r dosbarth meithrin yn aml wedi'i danysgrifio'n llawn yn nhymor yr haf.

Yn flaenorol, cyflwynodd y Cyngor gynigion i gynyddu capasiti'r ysgol ar ei safle presennol, ac wedi hynny, cyflwynodd gynigion i drosglwyddo'r ysgol i adeilad newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Willows. Ni ddatblygwyd yr un o'r cynigion hyn.

Nododd arolygon broblemau cyflwr yn Ysgol Gynradd Baden Powell, sydd angen buddsoddiad o fewn a thu hwnt i gyfnod buddsoddi Band B (2019 - 2024).

Cynigir cynyddu capasiti Baden Powell o 420 o leoedd (2 Ddosbarth Mynediad) i blant 4 - 11 oed i 630 o leoedd (3 Dosbarth Mynediad). Cynigir y byddai Ysgol Gynradd Baden Powell yn gweithredu ar draws safleoedd ysgolion Baden Powell a St Alban dros y cyfnod pontio, gan ddechrau ym mis Medi 2021, nes bod adeilad newydd yr ysgol wedi'i gwblhau. Rhagwelir y byddai'r llety newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Baden Powell ar gael o fis Medi 2023.

## Ysgol Gynradd Gatholig St Alban

Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol ym Mona Place, Tremorfa, ar safle ger Ysgol Feithrin Tremorfa a Pharc Tremorfa.

Mae'r corff llywodraethu yn dal adeiladau'r ysgol a'r tir y mae'r ysgol yn eistedd arno mewn ymddiriedolaeth, sy'n cyflogi'r staff ac yn delio â threfniadau derbyn. Mae'r Cyngor, trwy gyfran gyllideb yr ysgol, yn darparu cyllid refeniw.

Darpara'r ysgol 203 o leoedd (oddeutu 1 Dosbarth Mynediad) ar gyfer plant 4 - 11 oed. Ym mis Mai 2019 roedd 174 o blant yn yr ysgol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan yr Archesgobaeth Gatholig ym mis Mehefin 2019 yn nodi bod 17% o blant yr ysgol yn Gatholig.

Roedd nifer y disgyblion a gofrestrodd yn St Alban yn 2012 yn fwy na chapasiti'r ysgol. Ers 2013, mae'r nifer sydd wedi cofrestru wedi amrywio rhwng oddeutu 170 a 180 o ddisgyblion.

Gofynnodd yr Archesgobaeth Gatholig am i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban gael ei gynnwys mewn cynigion ehangach ar gyfer yr ardal.

Nodir trosodd resymau'r Archesgobaeth dros gynnig cau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban.

Y prif resymau dros y cynnig i gau yw:

- y nifer isel o ddisgyblion o deuluoedd Catholig sy'n dewis mynychu'r ysgol, ynghyd â
- materion hirsefydlog ynglŷn â recriwtio a chadw pennaeth parhaol i arwain yr ysgol.

Er bod yr Archesgobaeth yn cydnabod bod llawer o deuluoedd lleol nad ydynt yn Gatholigion wedi dewis i'w plant gael eu haddysgu yn St Alban fel ysgol Gatholig, yn hytrach nag mewn ysgol gymunedol, mae'n amlwg mai ei dyletswydd yw darparu digon o leoedd ysgol i blant Catholig.

Os oes lleoedd rhydd mewn ysgol, rhaid i'r Corff Llywodraethu dderbyn plant sy'n ceisio am le p'un a ydynt yn Gatholig ai peidio. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol i'r Esgobaeth gefnogi ysgolion Catholig lle nad yw'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn Gatholigion a lle mae nifer y plant Catholig yn parhau i ostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae 12 ysgol gynradd Gatholig yng Nghaerdydd, yn ogystal ag Ysgol Gynradd Gatholig St Alban. Yr ysgolion cynradd Catholig eraill agosaf i St Alban yw St Pedr yn y Rhath a St John Lloyd yn Trowbridge. Dywed yr Archesgobaeth y gall St Pedr gynnwys yr holl ddisgyblion Catholig o St Alban sy'n dymuno mynychu.

Mae llawer o rieni o ardaloedd Tremorfa a Sblot eisoes yn dewis anfon eu plant i San Pedr.

Mae rhai rhieni o ddalgylch St Alban eisoes yn dewis anfon eu plant i ysgolion Catholig eraill yng Nghaerdydd.  Mae hyn yn cynnwys St John Lloyd, sydd yn hanesyddol wedi derbyn plant o Dremorfa/Sblot, ac mae mwy o blant wedi cofrestru i ddechrau yno y tymor hwn.

O ystyried y nifer isel o leoedd y mae teuluoedd Catholig lleol yn manteisio arnynt yn St Alban, mae'r Archesgobaeth wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gydag offeiriad y plwyf a'r Urdd Rosminian dros fisoedd lawer ynghylch rhagolygon yr ysgol yn y dyfodol, a phryderon a strategaethau i gynyddu'r nifer o blant Catholig sy'n cofrestru.

Nid yw'r trafodaethau hyn wedi datrys y pryderon parhaus ynghylch y galw lleol am leoedd yn St Alban.

Yn ogystal â'r pryderon hyn, bu problemau sylweddol o ran denu a chadw Pennaeth parhaol i arwain yr ysgol, sydd wedi effeithio ar safonau addysgu a chanlyniadau disgyblion.

Cafwyd nifer o ymdrechion i recriwtio pennaeth sylweddol dros yr wyth mlynedd diwethaf, gan gynnwys:

- Hysbysebu'r rôl mewn cyhoeddiadau cenedlaethol
- Cyflogi asiantaeth recriwtio arbenigol i helpu i nodi ymgeiswyr addas
- Cynnig cyflog sy'n sylweddol uwch na'r hyn sy'n arferol ar gyfer ysgol un dosbarth mynediad er mwyn ysgogi diddordeb a denu gweithwyr proffesiynol o'r safon angenrheidiol.

Er gwaethaf defnyddio'r strategaethau hyn, nid yw'r corff Llywodraethu wedi gallu denu a recriwtio ymgeisydd parhaol addas.

Mae’r Esgobaeth wedi cymryd rhan mewn nifer o drafodaethau am ddewisiadau amgen fel ffederasiwn neu gydweithredu ag ysgol Gatholig arall. Byddai trefniant o’r fath yn cynnwys Pennaeth Gweithredol yn gweithredu dros ddwy ysgol neu fwy, gan gynnwys St Alban.

Sefydlwyd ffederasiynau a threfniadau cydweithredol mewn rhannau eraill o’r Esgobaeth. Cysylltodd yr Esgobaeth â nifer o benaethiaid profiadol a llwyddiannus ynghylch y gobaith o gydweithio neu ffedereiddio â St Alban. Fodd bynnag, roedd y penaethiaid hyn (gan gynnwys sawl un a oedd wedi cefnogi trefniadau arweinyddiaeth dros dro yn yr ysgol) yn unfrydol o’r farn bod angen pennaeth amser llawn ar St Alban i alluogi’r ysgol i symud ymlaen.

Felly cynigir y dylai Ysgol Gynradd Gatholig St Alban gau ym mis Awst 2021.

Byddai digon o leoedd ar gael i’r disgyblion hynny a ddadleolir o St Alban, yn yr Ysgol Gynradd Baden Powell estynedig. Byddai hyn yn cadw digon o leoedd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i ateb y galw am leoedd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows.

Byddai unrhyw blant sy’n aros ar y gofrestr yn St Alban yn haf 2021 yn cael cyfle i wneud cais i drosglwyddo i Ysgol Gynradd Baden Powell neu i ysgolion eraill os mai dyma yw dewis eu rhieni. Byddai pob plentyn o Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn gallu parhau i fynychu darpariaeth ysgol ar safle Ysgol Gynradd St Alban neu Baden Powell yn ystod y cyfnod trosglwyddo, os mai dyna a ffefrir gan eu rhieni.

Byddai angen i blant sydd eisiau parhau ag addysg ffydd mewn ysgol Gatholig wneud cais i ysgolion cynradd eraill. Yr ysgol gynradd Gatholig agosaf at Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yw Ysgol Gynradd Gatholig St Pedr sydd 1.6 milltir i ffwrdd, ond mae’r ysgol hon wedi’i thanysgrifio’n llawn yn achos rhai grwpiau blwyddyn. Mae nifer fach o leoedd ar gael mewn rhai grwpiau blwyddyn mewn ysgolion Catholig eraill, gan gynnwys ysgolion cynradd St Cuthbert, St Padrig, St John Lloyd a St Cadog.

Byddai cau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn golygu y byddai’r disgyblion hynny sydd eisiau parhau ag addysg ffydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn teithio ymhellach i’r ysgol a byddai rhai angen cludiant cartref i’r ysgol.

Nododd yr Archesgobaeth Gatholig y gwneir trefniadau i sicrhau bod polisïau derbyn ysgolion eraill yn rhoi blaenoriaeth gyfartal i blant o ddalgylch presennol St Alban i’w derbyn yn y blynyddoedd i ddod.

Gellir gweld y nifer ar y gofrestr a gwybodaeth am nifer y lleoedd gwag ar gyfer ysgolion Catholig yn Nhabl 10, yn Atodiad 2.

Mae’r gyfran o leoedd gwag ledled y ddinas mewn ysgolion cynradd Catholig, sef 10.9 %, ar lefel briodol, er bod y lleoedd gwag yn amrywio’n fawr rhwng ysgolion.

## Newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar

Mae'r capasiti meithrin presennol yn ddigonol ar y cyfan i ateb y galw am leoedd yn Adamsdown a Sblot. Ni ddylai unrhyw newidiadau geisio cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol.

O fis Medi 2021, y cynnig yw peidio â darparu lleoedd meithrin mwyach yn Ysgol Gynradd Baden Powell. Byddai capasiti ysgol Feithrin Tremorfa yn cynyddu o 112 o leoedd i 128, a byddai'r ysgol yn dod yn ganolfan blant integredig. Byddai digon o lety ar gael yn Ysgol Feithrin Tremorfa i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael os oes angen.

Byddai Ysgol Feithrin Tremorfa yn parhau i fod yn ysgol feithrin bwrpasol sy'n darparu addysg feithrin i blant 3-4 oed ar gyfer nifer cynyddol o ddisgyblion.

Yn ogystal â hyn, byddai Ysgol Feithrin Tremorfa yn cynnig ystod estynedig o wasanaethau i deuluoedd â phlant ifanc o ardal Sblot/Tremorfa. Byddai hyn yn cynnwys adleoli'r cymorth gofal plant a rhianta Dechrau'n Deg sydd ar hyn o bryd ar safle Ysgol Uwchradd Willows. Byddai'r ganolfan integredig i blant wedi'i lleoli yn adeiladau presennol Ysgol Feithrin Tremorfa ynghyd â llety/safle Ysgol Gynradd Gatholig St Alban gerllaw.

Byddai'r cynigion hyn yn ategu gwella darpariaeth blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cynnydd yn nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Moorland sydd eisoes wedi'i gytuno.

## Materion Tir gan gynnwys uwchraddio man agored cyhoeddus

Mae safle Ysgol Uwchradd Willows o fewn parth llifogydd ac felly nid yw'n ymarferol i gael ei ddatblygu ar gyfer ysgol ar hyn o bryd. Ar ôl adeiladu'r wal amddiffyn arfordirol newydd arfaethedig, rhagwelir y byddai arolygon yn cael eu comisiynu er mwyn i ffin y llifogydd gael ei hailasesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Er y gallai'r safle fod ar gael o bosibl i gynnwys adeilad ysgol newydd yn y dyfodol, ni ellid cyflwyno cynigion ar gyfer adeiladau ysgol newydd tan o leiaf 2023. Pe bai adeiladau newydd yn cael eu codi ar safle presennol yr ysgol, mae'n annhebygol y byddai disgyblion yn Adamsdown a Sblot yn elwa o safbwynt meddiannu'r rhain tan 2026 neu 2027.

Mae safle Parc Tremorfa wedi'i leoli ger safleoedd Ysgol Feithrin Tremorfa ac Ysgol Gynradd Gatholig St Alban. Dyry'r safle y cyfle i leoli darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd estynedig ar yr un safle, gyda'r holl ddarpariaethau meithrin a blynyddoedd cynnar yn cael eu darparu ar safle presennol Ysgol Feithrin Tremorfa. Byddai'r safle arfaethedig ar gyfer darparu ysgolion cynradd ac uwchradd angen i'r rhan fwyaf o Barc Tremorfa fod o fewn ffin yr ysgolion, a byddai'r parcdir sy'n weddill yn cael ei gadw at ddefnydd ysgolion a hamdden a rennir, ac fel man agored cyhoeddus. Byddai mynediad ar gael ar gyfer defnydd cymunedol o'r caeau.

Rhagwelir y byddai adeiladau newydd Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell wedi'u lleoli ym mhen gogleddol Parc Tremorfa gan fod yr ardal hon y tu allan i'r parth llifogydd. Byddai mynediad i gerbydau i safle'r ysgol yn cael ei gynllunio o Fforddd Pengam.

Byddai pwyntiau mynediad i gerddwyr yn cael eu cynllunio i gefnogi disgyblion sy'n cyrchu'r safle ar droed o'r ardaloedd cyfagos.

Fel rhan annatod o'r cynnig, ar ôl adeiladu ysgol newydd a dymchwel yr Ysgol Uwchradd Willows bresennol, byddai parc llinellog yn cael ei greu a fyddai'n ymestyn o Barc Tremorfa i safle presennol Ysgol Uwchradd Willows. Byddai hyn yn cefnogi disgyblion, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol sy'n dymuno teithio rhwng y safleoedd trwy ddulliau llesol, gan gynnwys beicio, sgwtera a cherdded.

Yn flaenorol, roedd safle presennol Ysgol Uwchradd Willows yn cael ei ddal mewn Ymddiriedolaeth elusennol a'i gyfyngu i ddefnydd "Hamdden Gyhoeddus a Phleser". Yn dilyn prisiad annibynnol, cyfnewidiwyd hwn am dir ym Mharc Tremorfa, sydd bellach yn cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth.

Er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo Ysgol Uwchradd Willows i Barc Tremorfa, byddai angen gwneud trefniadau i gyfnewid Parc Tremorfa, gan osod man agored cymesur mewn ymddiriedolaeth. Byddai'r Cyngor felly'n ceisio gosod safle gwag Ysgol Uwchradd Willows a'r parcdir llinellog presennol, o werth cymesur, mewn ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio gan y gymuned leol fel man agored cyhoeddus.

Os bydd y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cael ei symud ymlaen, dywed yr Archesgobaeth Gatholig ei bod yn rhagweld derbyniad cyfalaf a fyddai'n cael ei fuddsoddi i ddatblygu darpariaeth ysgolion Catholig ymhellach yng Nghaerdydd.

Ar ôl cau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, byddai'r Cyngor yn gweithredu Ysgol Gynradd Baden Powell estynedig ar draws dau safle presennol yr ysgolion yn ystod cyfnod trosglwyddo nes bod yr adeiladau ysgol newydd wedi'u cwblhau.

Ar ddiwedd cyfnod trosglwyddo, yn dilyn y trosglwyddiad  disgyblion Baden Powell i'r adeiladau newydd gorffenedig, cynigir y byddai safle gwag St Alban yn cynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar estynedig fel rhan o gyfleuster canolfan plant integredig, sy'n gwella'r cynnig sydd ar gael yn Ysgol Feithrin Tremorfa. Rhagwelir y byddai adeiladau presennol Ysgol Gynradd Baden Powell yn cael eu dymchwel.

Pe byddai'r cynigion yn bwrw ymlaen, byddai angen ystyried ymhellach defnydd safle Ysgol Gynradd Baden Powell i'r dyfodol.

Byddai'r cyfleusterau ar safle presennol Ysgol Uwchradd Willows a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Glwb Pêl-droed Bridgend Street yn cael eu cadw, a chytundeb newydd yn cael ei wneud i alluogi defnydd parhaus pe dymunir gan y grŵp.

Byddai'r cyfleuster maes chwarae presennol ym mhen gogledd-ddwyreiniol Parc Tremorfa, sy'n cael ei ddadleoli gan yr adeiladau ysgol newydd, yn cael ei ailsefydlu yn y parc llinellog.

# Uwch-gynllun dangosol - gosodiad dangosol yn unig




Uwch-gynllun dangosol – gosodiad dangosol yn unig
1 : 5000

Mynediad presennol i Gerddwyr a Beicwyr

Mynediad newydd i'r parc

# Cyflwr ac Addasrwydd

Er mwyn blaenoriaethu ysgolion o fewn rhaglen Band B, rhoddwyd gradd i'r holl eiddo ysgol.

Roedd y graddfeydd yn seiliedig ar:

- Digonolrwydd y lleoedd sydd ar gael
- Cyflwr adeiladau'r ysgol;
- Addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer addysgu

Roedd y graddau o A i D, gydag ysgolion a raddiwyd yn D gyda'r cyflwr gwaethaf.

Hysbyswyd pob Cyngor yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru bod angen i bob ysgol a ystyrir yn D o ran ei chyflwr gael ei hamnewid/ huwchraddio er mwyn derbyn buddsoddiad cyllid cyfalaf o raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Tabl 11: Graddfeydd cyflwr ac addasrwydd**

| Gradd | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da a gweithredu'n effeithlon. | Da. Cyfleusterau addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol. |
| B | Boddhaol ond gyda mân ddirywiad. | Boddhaol. Perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm mewn rhai meysydd yn effeithiol. |
| C | Gwael gyda diffygion mawr. | Gwael. Dulliau addysgu wedi'u hatal/ effaith andwyol ar drefniadaeth ysgolion. |
| D | Diwedd Oes; mae bywyd wedi dod i ben neu berygl o fethiant ar fin digwydd | Gwael iawn. Mae adeiladau yn wirioneddol atal gallu staff i gyflwyno'r cwricwlwm. |

Dengys Tabl 12 isod wybodaeth am gapasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Uwchradd Willows. High School.

**Tabl 12: Capasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd**

| Enw'r Ysgol | Math o ysgol | * Cyflwr yr Adeiladau Ysgol | * Addasrwydd yr adeiladau ysgol | Capasiti |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg | Categori D - Diwedd oes | Categori C - Gwael. | 1, 121 (11-16 oed) |

* Graddfa cyflwr fel y'i nodwyd gan arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dengys Tabl 13 isod wybodaeth am gapasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Feithrin Tremorfa

**Tabl 13: Capasiti ysgol, cyflwr ac addasrwydd**

| Enw'r Ysgol | Math o ysgol | * Cyflwr yr Adeiladau Ysgol | * Addasrwydd yr adeiladau ysgol | Capasiti |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gatholig St Alban | Ysgol ffydd cyfrwng Saesneg | Categori B - Boddhaol | Categori B - Boddhaol | 203 (4-11 oed) |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg | Categori C - Gwael | Categori B - Boddhaol | 420 (3-11 oed) |
| Ysgol Feithrin Tremorfa | Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg | Categori B - Boddhaol | Categori C- Gwael | 112 (3-4 oed) |

* Graddfa cyflwr fel y'i nodwyd gan arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif

## Cyfleusterau a gynhwysir mewn ysgol

Byddai unrhyw adeiladau newydd yn bodloni amodau cyllido Llywodraeth Cymru fel ardystiad BREEAM ac yn cael eu dylunio yn unol â'r 'Adran Addysg: Canllawiau ardal', sy'n nodi bod angen i gynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

- Gofod dysgu
- Neuaddau/ystafell fwyta mewnol ac allanol
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Staff a gweinyddiaeth
- Storio
- Toiledau a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad, gwaith a waliau mewnol
- Ardaloedd ymgilio i gefnogi gwaith grŵp bach/ AAA

Os bydd y cynigion yn symud ymlaen i'w gweithredu, cytunir ar ddyluniadau manwl gyda'r Penaethiaid a chyrff llywodraethu perthnasol.

# Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant ysgol.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn ysgolion a darparwyr addysg eraill yng Nghymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol y De yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Caerdydd, ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth awgrymu newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau addysgu a dysgu
- cefnogaeth a chanllawiau gofal
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

## ESTYN

Arolygir ysgolion fel rhan o raglen genedlaethol arolygiad ysgolion. Pwrpas arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Gellir gweld adroddiadau arolygon ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd



## Categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol ei wella. Mae'n nodi'r lefel o gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion. Yna mae sefydliadau fel y Consortiwm Canol y De a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/ neu broceru unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 14 isod:

| Categori cefnogaeth | Yr hyn y mae'r categori yn ei olygu |
|---|---|
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella. |
| Oren | Ysgol lle mae angen gwella ac sydd angen cymorth i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu gymorth i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol sydd angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn derbyn cefnogaeth ddwys ar unwaith. |

Bydd ysgolion mewn un o bedwar grŵp, A i D. Mae ysgolion lle mae'r dyfarniad yn A yn dangos y capasiti mwyaf i wella ynghyd â'r capasiti i gefnogi ysgolion eraill. Mae'r rhai lle mae'r dyfarniad yn D angen y gefnogaeth fwyaf. Cod lliw yw'r categori olaf sy'n dangos lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgol - gwyrdd, melyn, oren neu goch (gyda'r ysgolion yn y categori gwyrdd angen y gefnogaeth leiaf a'r rhai yn y categori coch angen y gefnogaeth fwyaf dwys).

Cyhoeddir categorïau wedi'u diweddaru ar gyfer pob ysgol bob blwyddyn ym mis Ionawr.

Mae mwy o wybodaeth am y cynllun categoreiddio ar gael yng nghanllaw rhieni Llywodraeth Cymru i'r System ar gyfer Categoreiddio Ysgolion Genedlaethol yma:
[www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr.pdf](www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr.pdf)

## Ysgol Uwchradd Willows

Arolygodd Estyn Ysgol Uwchradd Willows ym mis Ebrill 2018. Er y barnwyd bod gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn yr ysgol yn dda (nodweddion cryf da, er y gallai fod angen gwella mân agweddau), barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau tuag at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol a bod angen eu gwella (mae cryfderau'n gorbwyso'r gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig).

Roedd nifer o argymhellion yn codi o'r arolygiad. Roedd yn ofynnol i'r ysgol lunio cynllun gweithredu i ddangos sut y byddai'n ymdrin â'r argymhellion a wnaed gan Estyn. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Yn y Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru diweddaraf ym mis Ionawr 2019, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio fel C oherwydd ei chapasiti i wella, ac Oren (ysgol y mae angen ei gwella, sydd angen help i nodi'r camau i wella neu i wneud i newid ddigwydd yn gyflymach).

## Ysgol Gynradd Baden Powell

Arolygodd Estyn Ysgol Gynradd Baden Powell ym mis Gorffennaf 2017. Bryd hynny, barnwyd bod perfformiad yr ysgol yn dda (llawer o gryfderau a dim maes pwysig yr oedd angen ei wella'n sylweddol). Barnwyd bod rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn ddigonol (mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella).

Roedd nifer o argymhellion yn codi o'r arolygiad. Roedd yn ofynnol i'r ysgol lunio cynllun gweithredu i ddangos sut y byddai'n ymdrin â'r argymhellion a wnaed gan Estyn. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

Barnodd adolygiad dilynol fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol wrth ymdrin ag argymhellion yr arolygiad. Tynnwyd yr ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion yr oedd angen eu hadolygu gan Estyn ym mis Ebrill 2019.

Yn y Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru diweddaraf ym mis Ionawr 2019, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio fel C oherwydd ei chapasiti i wella, ac Oren (ysgol y mae angen ei gwella, sydd angen help i nodi'r camau i wella neu i wneud i newid ddigwydd yn gyflymach).

## Ysgol Gynradd Gatholig St Alban

Arolygodd Estyn Ysgol Gynradd Gatholig St Alban ym mis Mai 2019. Barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol tuag at brofiadau dysgu, addysgu a dysgu, cefnogaeth gofal ac arweiniad yn ddigonol ond bod angen eu gwella. Barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn anfoddhaol a bod angen eu gwella ar frys.

Mae Estyn o'r farn bod angen gwella'r ysgol yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut yr ymdrinnir â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Yn y Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru diweddaraf ym mis Ionawr 2019, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio fel C oherwydd ei chapasiti i wella, ac Oren (ysgol y mae angen ei gwella, sydd angen help i nodi'r camau i wella neu i wneud i newid ddigwydd yn gyflymach).

## Ysgol Feithrin Tremorfa

Arolygodd Estyn Ysgol Feithrin Tremorfa ym mis Chwefror 2019. Aseswyd bod safonau, arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn dda. Aseswyd bod llesiant ac agweddau tuag at brofiadau dysgu, addysgu a dysgu, a chymorth ac arweiniad gofal yn rhagorol.

Roedd nifer o argymhellion yn codi o'r arolygiad. Roedd yn ofynnol i'r ysgol lunio cynllun gweithredu i ddangos sut y byddai'n ymdrin â'r argymhellion a wnaed gan Estyn. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

I gydnabod yr arfer da yn yr ysgol, gwahoddodd Estyn yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â:

- datblygu annibyniaeth ac agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu mewn plant ifanc iawn
- ei defnydd o gyfarfodydd gwerthuso myfyriol, dyddiol i gynllunio ar gyfer dilyniant

i'w rannu ar wefan Estyn.

# Sut fyddai'r newidiadau yn yr ysgolion yn effeithio ar safonau?

## Safonau

Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad clir i barhau i fuddsoddi a gwella ysgolion Caerdydd i sicrhau bod gan bob plentyn y dechreuad gorau posibl mewn bywyd (www.cardiffcommitment.co.uk/cy).

Bydd cyflenwi amgylcheddau dysgu'r 21ain Ganrif yn sicrhau bod lleoedd ysgol addas o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc sy'n cwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac yn newid yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod arweinyddiaeth a llywodraethiant yn gryf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, cyflenwi'r Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol o addysg yn unrhyw un o'r tair ysgol sy'n rhan o'r cynnig hwn.

## Profiadau addysgu a dysgu

Bydd cyfleusterau'r ysgol newydd yn cefnogi cyflenwi'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3-16) sydd i'w weithredu yn ysgolion Cymru o 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu dull cynhwysol a gynlluniwyd i ymdrin â'r angen i baratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm newydd ddarparu ehangder, galluogi mwy o ddyfnder dysgu, sicrhau dilyniant gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser yn fwy dychmygus a chreadigol, a rhoi pwyslais llawer mwy ar sgiliau. Mae angen i Ysgolion newydd yr 21ain Ganrif gwrdd ag anghenion y cwricwlwm newydd, hyblyg hwn.

## Cefnogaeth a chanllawiau gofal

Mae gan bob ysgol ystod addas o bolisïau a darpariaeth ar waith i hyrwyddo iechyd a llesiant disgyblion.

Maent wedi ymrwymo i feithrin cymunedau ysgol lle mae dysgu yn cael ei werthfawrogi ac mae disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth pob un o'r ysgolion i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb i helpu i wella a chynnal cefnogaeth a chanllawiau gofal.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth pob un o'r ysgolion i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb i helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda â rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn derbyn addysg o ansawdd uchel.

Mae gan y Cyngor brofiad o reoli projectau tebyg a bydd yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o rywle arall, gan weithio'n agos gyda'r ysgolion dan sylw i sicrhau pontio didrafferth i'r holl ddisgyblion.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel nad oes tarfu ar arweinyddiaeth a llywodraethiant ysgolion, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.

## Sut effeithir ar y ddarpariaeth feithrin?

Gall plant yng Nghaerdydd fynd i feithrinfa ran-amser yn yr ysgol o ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Rhaid iddynt fynychu'r dosbarth meithrin am o leiaf bum hanner diwrnod yr wythnos. Lle bo modd, cynigir lleoedd mewn dosbarth meithrin lleol o fewn dwy filltir i gartref y plentyn. Nid oes dalgylchoedd ar gyfer dosbarthiadau meithrin. Os nad oes lleoedd ar gael mewn ysgol feithrin neu ddosbarth cymunedol lleol, gall rhieni wneud cais am gyllid i gael lle addysg feithrin gyda darparwr cymeradwy. Darparwr cymeradwy yw meithrinfa y mae'r Cyngor wedi penderfynu sydd o ansawdd da.

Pe bai'r cynigion hyn yn cael eu symud ymlaen, byddai digon o leoedd dosbarth meithrin ac ysgol feithrin i gwrdd â'r angen cyfredol a rhagamcanol ar draws ardaloedd Adamsdown a Sblot, gyda rhai lleoedd dros ben a llety ar gael mewn ysgolion i ymateb i unrhyw newid yn y dyfodol o ran y nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg feithrin.

Nid yw cynnig lle meithrin mewn ysgol yn golygu y bydd plentyn hefyd yn cael cynnig lle yn y Dosbarth Derbyn. Rhaid llenwi ffurflen gais ar wahân i'w dderbyn i'r Dosbarth Derbyn.

## Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Dengys Tabl 15 isod y ganran o'r:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig

ym mhob un o'r ysgolion.

**Tabl 15:** Canran y disgyblion ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn ardal Adamsdown/Sblot sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim, gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac a nodwyd fel disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig yn 2018

| Ysgol | % o ddisgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol | % o ddisgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % o ddisgyblion gyda datganiad ADY | % Canran disgyblion cinio ysgol am ddim- cyfartaledd 3 blynedd | % o ddisgyblion gyda Saesneg fel iaith ychwanegol | % o ddisgyblion Lleiafrifoedd Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | 20.5% | 13.8% | 2.2% | 42% | 15.7% | 40.3% |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | 17.7% | 12.3% | 2.4% | 35% | 17.1% | 33.0% |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Alban | 24.7% | 8.2% | 3.4% | 46.1% | 10.3% | 36.3% |
| Ysgol Feithrin Tremorfa | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Cyfartaledd Caerdydd (Uwchradd) | 13.6% | 7.5% | 2.9% | 19.9% | 9.4% | 30.9% |
| Cyfartaledd Cymru (Uwchradd) | 14.4% | 8.3% | 2.3% | 16.6% | 3.0% | 9.8% |
| Cyfartaledd Caerdydd (Cynradd) | 14.2% | 6.5% | 2.1% | 21.5 | 18.4% | 30.9% |
| Cyfartaledd Cymru (Cynradd) | 14.4% | 8.2% | 1.8% | 18.4 | 6.2% | 12.2% |

### Sut effeithir ar gefnogaeth i ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth oherwydd bod ganddynt Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar sut mae plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu cefnogi. Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd yn parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

### Sut effeithir ar ddisgyblion sy'n cael Cinio Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r cyllid a dderbynnir gan ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd yn derbyn cyllid ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim.

### Sut effeithir ar ddisgyblion Lleiafrifoedd Ethnig?

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ychwaith sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?

### Ysgolion uwchradd

Ar hyn o bryd, mae cyfran helaeth o ddisgyblion dalgylch Ysgol Uwchradd Willows yn dewis mynychu ysgolion uwchradd cymunedol Saesneg neu Gymraeg arall neu ysgolion uwchradd ffydd ar hyd a lled Caerdydd.

Gan fod y boblogaeth ledled y ddinas sy'n mynd i addysg uwchradd yn cynyddu, bydd llai o lefydd gweigion mewn ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Bydd hyn yn lleihau nifer y disgyblion yn Adamsdown a Sblot sydd yn gallu cyrchu ysgolion cymunedol Saesneg eraill. Byddai hyn yn digwydd boed y cynigion hyn yn mynd rhagddynt ai peidio. Disgwylir i'r cynnig i ddisodli Ysgol Uwchradd Willows gydag adeiladau newydd leihau ymhellach nifer y disgyblion yn Adamsdown a Sblot sydd yn dewis teithio i ysgolion cymunedol Saesneg eraill.

Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Willows yn ffinio â dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Uwchradd y Dwyrain ac Ysgol Uwchradd Fitzalan.

Mae nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Fitzalan ac sy'n dewis mynd i ysgol uwchradd Saesneg eisoes yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael yn yr ysgol. Bydd nifer y tai yn y dalgylch hwn yn cynyddu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod yn sgil codi tai newydd. Bydd nifer y disgyblion yn yr ardal ehangach felly yn parhau ar lefel uchel gyda disgyblion yn cael llefydd mewn ardaloedd cyfagos. Disgwylir i'r niferoedd sy'n mynd i Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Cathays barhau ar y lefel sy'n debyg i'r lefel bresennol trwy gydol y cyfnod buddsoddiad Band B (2019-2024). Ni ddisgwylir i gynigion Ysgol Uwchradd Willows effeithio ar y niferoedd sy'n mynd i ysgolion uwchradd cymunedol eraill.

Mae'r potensial gan y cau arfaethedig ar Ysgol Gatholig St Alban i leihau nifer y rhai sy'n ceisio am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant o Adamsdown a Sblot yn y tymor hwy oherwydd y gallai disgyblion ffafrio pontio i ysgol uwchradd gyda'u cyfoedion ysgol gynradd. Fodd bynnag, byddai newidiadau arfaethedig i drefniadau derbyn yr Esgobaeth Gatholig, a'r galw uchel am lefydd yn yr ysgol o fewn ei hardal leol, yn lliniaru'r effaith yma ar ddisgyblion Catholig mewn blynyddoedd i ddod.

Ni ddisgwylir y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y llefydd a gaiff eu cymryd mewn ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal leol.

Mae Tabl 16 isod yn dangos y niferoedd ar y gofrestr yn y gorffennol a'r rhagamcanion i'r dyfodol ar gyfer disgyblion i Ysgol Uwchradd Willows, ysgolion uwchradd eraill sy'n gwasanaethu ei dalgylch, ac ysgolion sydd â dalgylchoedd yn ffinio â dalgylch Ysgol Uwchradd Willows.

**Tabl 16:** Nifer ar y gofrestr a gwybodaeth am ragamcanion disgyblion ysgolion uwchradd

| Ysgol | Nifer ar y Gofrestr | | | | | Rhagamcanion disgyblion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/ 2015 | 2015/ 2016 | 2016/ 2017 | 2017/ 2018 | 2018/ 2019 | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 558 | 539 | 554 | 581 | 617 | 685 | 797 | 864 | 953 | 1030 |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 1554 | 1627 | 1643 | 1645 | 1612 | 1639 | 1641 | 1643 | 1642 | 1642 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 903 | 826 | 782 | 847 | 912 | 961 | 1004 | 1036 | 1059 | 1075 |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 882 | 756 | 700 | 730 | 869 | 963 | 1063 | 1145 | 1178 | 1180 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | 1648 | 1701 | 1712 | 1709 | 1719 | 1698 | 1720 | 1736 | 1738 | 1738 |
| Illtud Sant | 826 | 846 | 872 | 877 | 861 | 888 | 892 | 879 | 885 | 890 |
| Ysgol Teilo Sant | 1490 | 1474 | 1400 | 1382 | 1417 | 1446 | 1450 | 1451 | 1448 | 1440 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | 260 | 378 | 509 | 617 | 702 | 794 | 881 | 954 | 1022 | 1060 |

## Ysgolion cynradd

Byddai'r cau arfaethedig ar Ysgol Gynradd Gatholig St Alban o fis Medi 2021 yn golygu y byddai'n rhaid i'r holl ddisgyblion ar y gofrestr drosglwyddo i ysgolion eraill neu ffurfiau eraill o addysg. Mae'r mwyafrif llethol o ddisgyblion sy'n mynd i ysgol St Alban yn byw yn ardal Tremorfa Ward Sblot. Mae rhieni plant sydd wedi eu cofrestru yn ysgol St Alban, drwy gofrestru eu plant yn yr ysgol, wedi datgan eu bod yn ffafrio addysg mewn ysgol gynradd Gatholig yn hytrach na darpariaeth ysgol gymunedol.

Ar hyn o bryd, mae rhai llefydd dros ben ar gael yn yr ysgolion Catholig amgen agosaf. Ym mis Mai 2019, roedd 76 lle yn Ysgol Gynradd Gatholig St Pedr o fewn pellter oddeutu 1.5 - 2.5 milltir i gyfeiriadau yn Nhremorfa. Mae digon o lefydd ar gael i holl ddisgyblion Ysgol St Alban mewn ysgolion Catholig eraill yng Nghaerdydd er bod y rhain ymhellach i ffwrdd.

Disgwylir y bydd mwyafrif rhieni plant sy'n mynd i St Alban yn dewis trosglwyddo eu plant un ai i ddarpariaeth Gatholig gynradd arall, megis St Pedr, neu i'r Ysgol Gynradd Baden Powell arfaethedig mwy ei maint sydd i'w hadleoli ar safle Parc Tremorfa. Ysgol Gynradd Baden Powell fyddai'r ysgol amgen agosaf i'r rhan fwyaf o'r plant a fyddai'n cael eu dadleoli o St Alban.

Mae tua 20 o blant wedi eu cofrestru yn St Alban sy'n byw y tu allan i Dremorfa. Mae'n bosib y bydd y teuluoedd hyn yn dymuno parhau ag addysg Gatholig mewn ysgol Gatholig sy'n nes i'w cartrefi, neu efallai y byddent yn dymuno parhau i fynychu ysgol gyda'u criw cyfoedion yn yr Ysgol Gynradd Baden Powell fwy ei maint.

Ni ddisgwylir y bydd ehangu Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2021 yn effeithio ar ysgolion lleol eraill yn ystod y cyfnod pontio. Disgwylir y byddai cwblhau'r adeiladau newydd yn cynyddu nifer y llefydd yn yr ysgol a fyddai'n cael eu cymryd gan blant o fewn y dalgylch. O ganlyniad, mae'n bosib y byddai'r all-lif presennol o blant o ddalgylch Baden Powell hefyd yn lleihau. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i hyn effeithio ar ysgolion eraill cyn 2023.

Ni ddisgwylir y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar nifer y llefydd a gaiff eu cymryd mewn ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal leol gan fod y Cyngor yn ddiweddar wedi ehangu Ysgol Glan Morfa mewn adeiladau newydd o fewn pellter cerdded i i gartrefi y rhan fwyaf o breswylwyr yr ardal. Mae amcanestyniadau yn awgrymu fod Ysgol Glan Morfa yn ddigon mawr i ganiatáu ar gyfer twf sylweddol o hyd at 50% yn nifer y llefydd Cymraeg a gaiff eu cymryd.

Dengys Tabl 17 isod niferoedd ar y gofrestr yn y gorffennol a'r rhagamcanion ar gyfer niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cynradd a/neu'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot, pe na fyddai'r newidiadau arfaethedig i St Alban a Baden Powell yn mynd rhagddynt.

**Tabl 17:** Nifer ar y gofrestr a gwybodaeth am ragamcanion disgyblion ysgolion cynradd yn ac / neu'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot

| Ysgol | Nifer ar y Gofrestr (Ionawr) | | | | | Amcanestyniad Nifer ar y Gofrestr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/ 2015 | 2015/ 2016 | 2016/ 2017 | 2017/ 2018 | 2018/ 2019 | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
| Baden Powell | 361 | 368 | 374 | 392 | 358 | 385 | 385 | 374 | 371 | 362 |
| St Alban | 181 | 174 | 186 | 176 | 170 | 177 | 176 | 175 | 173 | 170 |
| Adamsdown | 277 | 291 | 311 | 339 | 367 | 367 | 376 | 385 | 384 | 386 |
| Moorland | 381 | 402 | 399 | 410 | 400 | 410 | 412 | 414 | 414 | 412 |
| Stacey | 198 | 193 | 177 | 185 | 183 | 185 | 184 | 187 | 185 | 186 |
| Tredegarville | 205 | 208 | 207 | 203 | 209 | 209 | 207 | 205 | 207 | 207 |
| Ysgol Glan Morfa | 168 | 182 | 179 | 194 | 196 | 198 | 205 | 212 | 219 | 221 |
| Sant Pedr | 483 | 494 | 491 | 494 | 470 | 492 | 489 | 484 | 489 | 481 |

Dengys Tabl 18 isod niferoedd ar y gofrestr yn y gorffennol a'r rhagamcanion ar gyfer niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cynradd yn a/neu'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot, pe byddai'r newidiadau arfaethedig i St Alban a Baden Powell yn mynd rhagddynt.

**Tabl 18:** Nifer ar y gofrestr a'r rhagamcanion ar gyfer niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cynradd yn a/neu'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot, pe byddai'r newidiadau arfaethedig i St Alban a Baden Powell yn mynd rhagddynt.

| Ysgol | Nifer ar y Gofrestr (Ionawr) | | | | | Amcanestyniad Nifer ar y Gofrestr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/ 2015 | 2015/ 2016 | 2016/ 2017 | 2017/ 2018 | 2018/ 2019 | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
| Baden Powell | 361 | 368 | 374 | 392 | 358 | 385 | 385 | 519 | 514 | 502 |
| St Alban | 181 | 174 | 186 | 176 | 170 | 177 | 176 | 0 | 0 | 0 |
| Adamsdown | 277 | 291 | 311 | 339 | 367 | 367 | 376 | 385 | 384 | 386 |
| Moorland | 381 | 402 | 399 | 410 | 400 | 410 | 412 | 414 | 414 | 412 |
| Stacey | 198 | 193 | 177 | 185 | 183 | 185 | 184 | 187 | 185 | 186 |
| Tredegarville | 205 | 208 | 207 | 203 | 209 | 209 | 207 | 205 | 207 | 207 |
| Ysgol Glan Morfa | 168 | 182 | 179 | 194 | 196 | 198 | 205 | 212 | 219 | 221 |
| Sant Pedr | 483 | 494 | 491 | 494 | 470 | 492 | 489 | 514 | 519 | 511 |

## Trefniadau Derbyn

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Fel yr awdurdod derbyn, bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn gyfrifol am dderbyn disgyblion i Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Feithrin Tremorfa.

Byddai trefniadau derbyn ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021/22, lle byddai'r trefniadau diwygiedig yn dod i rym, yn destun ymgynghoriad yn Hydref 2019/ Gwanwyn 2020 yn unol â gofynion y Cod Derbyn.

Byddai'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig i Baden Powell yn cynyddu o 60 lle i 90 lle fesul grŵp blwyddyn. Byddai'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig i Ysgol Uwchradd Willows yn cynyddu o 221 i 240 lle fesul grŵp blwyddyn.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion cynradd Saesneg sydd i ddod i rym o fis Medi 2021. Byddai cyflenwad a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ysgol yn cael eu hadolygu a byddai newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried os bernir bod angen hynny.

Byddai angen ymgynghori ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar yr adeg briodol, er mwyn darparu cydbwysedd addas wrth gyflenwi a manteisio ar leoedd ysgol.

Nododd yr Archesgobaeth y byddai trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cynradd Catholig eraill yn y clwstwr lleol, sef St Pedr, St Padrig, St John Lloyd a St Cadog yn rhoi blaenoriaeth gyfartal i'r plant hynny yn y 'dalgylch' cyfredol y mae St Alban yn ei wasanaethu.

Byddai trefniadau hefyd yn cael eu gwneud gydag Ysgol Uwchradd St Illtyd i sicrhau na fyddai unrhyw effaith negyddol ar ddisgyblion a fethodd sicrhau trosglwyddiadau mewn-blwyddyn i ysgolion cynradd Catholig eraill.

Cynhwysir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn 2019/20 yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor, a gellir gweld y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk/CYM/Hafan/Pages/default.aspx).

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae rhaglen Band B Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol ar gyfer plant lleol. Mae'n annog defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob project ysgol yn cymryd i ystyriaeth faterion trafnidiaeth allweddol pan fyddant yn cael eu cynllunio. Ystyrir a chefnogir yr angen pendant i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i ysgolion.

Gyda'r buddsoddiadau cyfredol mewn TGCh ar draws y ddinas, mae'n bosibl y bydd symudiadau myfyrwyr yn cael eu lleihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu. Mae hyn yn caniatáu dulliau addysgu mwy hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

Rydym yn awyddus i fwyafu effaith hirdymor y buddsoddiad hwn. Byddai unrhyw ddyluniad a ddygwyd ymlaen ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu i sicrhau darpariaeth cyfleusterau modern o ansawdd uchel. Byddai cyfleusterau yn gallu ymateb i anghenion disgyblion a chefnogi cyflenwi dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Byddai cyfleusterau'n cael eu cynllunio i ymgorffori'r hyblygrwydd i ystyried newidiadau mewn anghenion dros amser. Gellid effeithio ar y rhain trwy newid demograffeg a niferoedd disgyblion, newid cwricwlwm a mathau newidiol o anghenion disgyblion.

## Materion ariannol

Mae'r cynllun arfaethedig yn rhan o Raglen £284 miliwn Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Bydd cost y cynllun penodol hwn yn cael ei chwblhau yn y misoedd i ddod. Fodd bynnag, ar adeg datblygu'r rhaglen amlinellol, rhagwelir pe byddai'r cynllun hwn yn mynd rhagddo, byddai'n cynrychioli o leiaf 20% o'r rhaglen gyffredinol.

Bydd y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn talu cost y cynllun ar y cyd, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu o leiaf 65% o'r cyfanswm gost, trwy grant penodol.

Bydd cyfran y Cyngor yn cael ei hariannu drwy gyfuniad o fenthyca allanol, y bydd angen ei ad-dalu dros nifer o flynyddoedd, a derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir wrth werthu asedau'r Cyngor.

Daw'r costau gweithredol o reoli'r cynllun a throsglwyddo o adeiladau presennol i adeiladau newydd o gyllideb refeniw benodedig.

Diwellir costau refeniw ychwanegol y niferoedd cynyddol o ddisgyblion trwy fformiwla ariannu ysgolion, sy'n dyrannu'r mwyafrif o'r cyllid ar gyfer ysgolion ar sail niferoedd disgyblion.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd yr ehangu arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu pob ysgol gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu, yn barod ar gyfer yr ehangu. Bydd angen i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Baden Powell hefyd ystyried effaith y cynnig i leihau ystod oedran yr ysgol. Anogir y Cyrff Llywodraethu i gyflawni'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith AD SOP a Pholisïau AD perthnasol sy'n golygu y dylid ystyried unrhyw swyddi gwag sy'n codi fel cyfleoedd adleoli i staff ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn rhoi staff ysgol mewn perygl posibl o gael eu diswyddo, a bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod staff yn parhau i gael eu cefnogi a'u cymell yn ystod yr hyn a allai fod yn sefyllfa anodd. Bydd angen ystyried a thrafod canlyniadau'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Feithrin Tremorfa yn llawn gyda'r Corff Llywodraethu, i gynnwys unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu ysgolion er mwyn ystyried y cynnig i gynnwys canolfan blant integredig. Bydd hyn angen ymgynghoriad llawn â staff a chydweithwyr undeb llafur pan fydd yn hysbys.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn cynnig cefnogaeth lawn i holl staff yr ysgol a Chyrff Llywodraethu trwy gydol yr ad-drefnu hwn, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd ymgynghori, cyfarfodydd â staff ysgolion os yw'n briodol, a chylchredeg dogfennau Cwestiynau Cyffredin.

## Materion Trafnidiaeth

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu 'Ysgolion Lleol i Blant Lleol', ynghyd ag annog defnydd o ddulliau cynaliadwy i deithio i ysgolion, megis cerdded, beicio a sgwtera. Mae pob project ysgol yn cymryd i ystyriaeth faterion trafnidiaeth allweddol pan fyddant yn cael eu cynllunio. Ystyrir a chefnogir yr angen pendant i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i ysgolion.

Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (2006-2026) yn cynnwys targed o 50% o holl deithiau i'w gwneud drwy drafnidiaeth gynaliadwy. Gall lleihau cyfran y siwrneiau ysgol a wneir mewn car a chynyddu cyfleoedd i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol a chynaliadwy wneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r targed hwn a lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth ar yr adegau prysuraf. Bydd cynyddu teithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant a bydd yn cefnogi cyflwyno gweithredoedd a chanlyniadau allweddol o dan Nod 5 Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant (2018) y Cyngor, sy'n ymwneud â sicrhau mynediad i amgylcheddau awyr agored diogel ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, cerdded, beicio a sgwtera a theithio llesol i'r ysgol.

Mae Cynllun Corfforaethol cyfredol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun o'r fath yn nodi gweithredoedd yr ysgol i gefnogi ac annog teithio llesol i'r ysgol a hefyd unrhyw welliannau i'r seilwaith ar y safle ac oddi ar y safle sy'n ofynnol i hwyluso teithiau llesol.

Mae darparu ysgolion newydd ac adleoli ysgolion presennol yn rhoi cyfle amlwg i ymdrin ag ymddygiad teithio yng nghyd-destun lleoliad newydd. Bydd angen i ddull y Cyngor o wneud hyn yn achos safle newydd Ysgol Uwchradd Willows, sydd hefyd yn ymgorffori darpariaeth ysgolion cynradd, ymdrin â'r materion canlynol:

- Gallai cyflwyno cymuned ysgol fawr i barc presennol gynhyrchu teithiau cerbydau ychwanegol sylweddol i'r safle, a allai gynyddu'r pwysau traffig ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos. Byddai maint posibl y rhain yn cael ei nodi pan gomisiynir yr Asesiad Trafnidiaeth.

Bydd angen lliniaru'r effeithiau hyn trwy:

- ddyluniad a chynllun o safle'r ysgol;
- dyluniad y mynediad i'r safle a threfniadau parcio gan gynnwys lleihau nifer y lleiniau parcio ceir ar y safle;
- darparu cyfleusterau ar y safle, fel parcio beiciau;
- datblygu a gwella llwybrau oddi ar y safle a mesurau peirianyddol i hwyluso teithio i'r ysgol trwy gerdded a beicio gan gynnwys mesurau rheoli cyflymder, cyfleusterau croesi newydd a chyfyngiadau parcio ar strydoedd cyfagos;
- datblygu Cynllun Teithio Llesol ac ymrwymiad cadarn i'r ysgol newydd ei weithredu a'i gynnal;
- Byddai angen darparu mynediad newydd i gerbydau i safle Parc Tremorfa o Ffordd Pengam i ategu'r mynediad presennol i'r parc. Bydd hyn yn darparu prif fynediad gweladwy i'r ysgol o'r rhwydwaith priffyrdd.

Y mesurau lliniaru fydd yn y sefyllfa orau i leihau unrhyw effaith gan gerbydau ar y rhwydwaith priffyrdd gyda chysylltiadau rhwydwaith beicio o ansawdd ar draws y dalgylch, yn cysylltu y tu hwnt i'r rhwydwaith beicio ledled y ddinas a'u cyfuno â llwybrau cerddwyr uniongyrchol a chyfleus a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cynhwysfawr.

Datblygir y gwaith Asesu Trafnidiaeth unwaith y derbynnir cadarnhad o'r argymhellion addysg, a gallai nodi materion pellach y byddai angen ymdrin â hwy.

Mae data o'r arolwg Dwylo'i Fyny blynyddol (2017) ar gyfer Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cyflwyno'r canlyniadau a gafwyd gan 349 o ddisgyblion ysgolion cynradd a 386 o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Willows, fel y gwelir yn Nhabl 19.

### Tabl 19: Dulliau teithio i'r ysgol yn ôl disgyblion a arolygwyd yn arolwg blynyddol Dwylo'i Fyny 2017

| Dull teithio | Ysgol Uwchradd Willows (386 o ddisgyblion) | Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Gynradd Gatholig St Alban (349 o ddisgyblion) |
|---|---|---|
| Cerdded | 56% | 52% |
| Beicio | 4% | 6% |
| Sglefrio | 2% | 2% |
| Bws | 15% | 3% |
| Car | 17% | 36% |
| Rhannu car | 1% | 1% |
| Parcio a cherdded | 0 | 1% |

Mae safle newydd yr ysgol ychydig ymhellach i ffwrdd o gartrefi rhai o'r disgyblion presennol a allai gynyddu'r daith i'r ysgol o hanner milltir ychwanegol, ond bydd eraill yn agosach. Mae'n bosibl y bydd rhai rhieni'n teimlo mwy o duedd i yrru eu plant i'r ysgol.

## Llwybrau cerdded, sgwtera a beicio

Mae safle newydd yr ysgol ar safle Parc Tremorfa, gyda'r mynediad mwyaf uniongyrchol i gerddwyr i'r safle newydd oddeutu 500m o'r giât fynediad agosaf at Ysgol Uwchradd Willows.  Felly bydd o fewn pellter cerdded, sgwtera neu feicio rhesymol i'r mwyafrif o ddisgyblion. Bydd angen cynnwys mesurau i annog disgyblion, rhieni a staff i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol wrth ddylunio'r trefniadau mynediad ar gyfer yr ysgol newydd.

Mae'r prif fynediad i safle Parc Tremorfa a Chlwb Rygbi St Alban oddi ar Ffordd Kenyon a byddai'r mynediad hwn yn ffurfio prif lwybr cerdded a beicio i flaen yr adeilad. Byddai angen addasu'r mynediad presennol i ddarparu llwybrau diogel ar gyfer cerdded, sgwtera a beicio tra hefyd bod ar gael fel mynediad i gerbydau argyfwng ac ar gyfer cyflenwi nwyddau.

Byddai'r prif fynediad i gerbydau i mewn i safle'r ysgol ar hyd ffordd fynediad newydd o Ffordd Pengam a byddai hefyd yn ymgorffori llwybr mynediad ar gyfer cerdded, sgwtera a beicio.

Bydd llwybrau posib eraill ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn cysylltu o'r ardaloedd cyfagos â'r safle i sicrhau llwybrau uniongyrchol a chyfleus o ansawdd da i'r ysgol i annog cerdded, beicio a sgwtera.  Disgwylir i'r mynediad sydd i'w gadarnhau gynnwys y llwybrau presennol i Barc Tremorfa.  Hefyd, bydd mynediad cerdded a beicio yn cael ei gynnal i'r Parc Llinellog arfaethedig.

Byddai gan yr ysgolion cynradd ac uwchradd lwybrau mynediad ar wahân unwaith yr eir i mewn i'r safle cyffredinol.

Bydd y gwaith Asesu Trafnidiaeth yn nodi ac yn llywio mesurau arfaethedig i gefnogi llwybrau teithio llesol. Bydd tîm trafnidiaeth y Cyngor yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr cynllunio ac addysg i ddatblygu'r atebion cywir a chefnogi datblygiad y cynllun teithio safle a fydd yn ymgorffori Cynllun Teithio Llesol.

## Cynllun Teithio Llesol

Pe bai'n cael ei weithredu, byddai Cynllun Teithio Llesol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynllunio, dylunio a darparu'r cyfleuster ysgol newydd a disgwylir iddo gael ei wneud yn un o amodau'r caniatâd cynllunio.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Teithio Llesol, byddai swyddogion o'r timau trafnidiaeth, cynllunio ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ei fod wedi'i deilwra'n llawn i leoliad yr ysgol a'i hanghenion yn y dyfodol. Mae datblygu'r cynllun yn debygol o gynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Ymgysylltiad cynnar â phenaethiaid, cyrff llywodraethu a chynghorwyr ward yr ysgol i nodi materion allweddol ac atebion posibl;
- Ymgysylltu â rhieni, disgyblion a staff, gan gynnwys cymorth gyda chynllunio teithio wedi'i bersonoli;
- Nodi cyfleusterau a seilwaith hanfodol ar safle'r ysgol i gefnogi teithio llesol, fel standiau beic a sgwteri;
- Nodi mesurau peirianyddol oddi ar y safle i hwyluso cerdded a beicio i'r safle;
- Cefnogaeth gan Dîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor i ddarparu gweithgareddau cefnogi teithio llesol gan gynnwys hyfforddiant beicio safonau cenedlaethol, Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Iau, Kerbcraft a Streetwise, a gweithio gyda thîm Go Ride Beicio Cymru i gyflenwi sgiliau beicio.

Ni ddylai parcio ceir ar y safle fod yn fwy na'r terfynau a gynhwysir yn safonau parcio mabwysiedig y Cyngor, a gynhwysir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth (2018).

## Trefniadau Teithio'r Dysgwyr

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor o ran cludo plant i'r ysgol ac o'r ysgol.

Byddai unrhyw ddisgyblion a effeithir gan y cynnig hwn yn cael yr un gefnogaeth gyda chludiant ag y darperir ledled Caerdydd, ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

Gellir gweld polisi cludiant y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk)

O dan Bolisi Cludiant Cartref i Ysgol cyfredol y Cyngor, byddai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, sy'n preswylio yng Nghaerdydd ac sy'n dymuno parhau i fynychu ysgol gynradd Gatholig, nad ydynt yn gallu cael mynediad i ysgol gynradd Gatholig o fewn 2 filltir i'w cyfeiriad cartref, yn cael cludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol gynradd Gatholig agosaf.

Er bod tua 174 o ddisgyblion wedi cofrestru yn St Alban (data Nifer ar y Gofrestr mwyaf diweddar), ni wyddys faint o blant a fyddai'n parhau ar y gofrestr ym mis Awst 2021 ac ni wyddys faint fyddai'n dewis teithio i ysgol gynradd Gatholig amgen pe bai Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cau.

Ni fyddai'r Cyngor yn atebol am gost cludo unrhyw frodyr a chwiorydd iau sy'n mynychu'r ysgolion eraill hyn wedi hynny, pe bai lle ar gael mewn ysgol Gatholig yn agosach.

Ar hyn o bryd, mae tri disgybl yn cael cludiant cartref i ysgol i Ysgol Gynradd Gatholig St Alban a byddai'r plant hyn yn parhau i gael cludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol agosaf o'r math a ffefrir, gan nad oes llwybr cerdded cartref i ysgol diogel ar gael.

## Partneriaethau

'Addewid Caerdydd' (www.cardiffcommitment.co.uk/cy) yw strategaeth ymgysylltu a datblygu ieuenctid y Cyngor. Mae'n nodi sut y bydd y Cyngor ac ystod eang o bartneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc. Dylai pob person ifanc yng Nghaerdydd fod naill ai mewn gwaith neu addysg bellach a hyfforddiant ar ôl iddynt orffen yr ysgol.

Hyd yn hyn, mae dros 120 o fusnesau wedi addo cefnogi Addewid Caerdydd. Maent yn darparu cyfleoedd i ysgolion a phobl ifanc sy'n eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith ac yn cyfrannu at dwf economaidd y ddinas yn y dyfodol.

Mae cynigion y Cyngor ar gyfer Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a strategaeth Caerdydd 2020, yn datgan yn glir y cysylltiad rhwng gwella'r amgylchedd ar gyfer dysgu a chodi safonau cyflawniad.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gynorthwyo gyda datblygu cyfleoedd rhwng ysgolion a busnesau. Byddai hyn yn helpu i greu cronfa gynaliadwy o dalent ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Byddai'n lledaenu sgiliau ar draws y ddinas. Enghraifft o hyn yw'r Bartneriaeth Addysg Greadigol a sefydlwyd rhwng Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd a nifer o sefydliadau partner.

Byddai'r cynnig yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cryf gyda busnesau a chyflogwyr. Mae cyfleoedd ar gyfer partneriaethau pellach yn cael eu harchwilio. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn Addewid Caerdydd.

## Effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg o'r cynnig hwn.

Ni fyddai'r cynnig hwn yn newid y nifer o leoedd ysgol cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.

Dysgir Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddai hyn yn parhau i fod yn wir pe bai Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell, ac Ysgol Feithrin Tremorfa yn cael eu hehangu.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg (WEF). Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth weithredol i gynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg. Hefyd mae'n cefnogi cynllun y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg yn gynaliadwy, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor a'r Fforwm Addysg Gymraeg wedi ymrwymo i yrru'r cynnydd yn nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Eu nod yw cyrraedd y targedau yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg Caerdydd (WESP) ac fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru 2050.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau genedigaeth, nifer y disgyblion ychwanegol a all ddod o dai newydd a phatrymau niferoedd y disgyblion sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyflwyno cynlluniau addas i ymdrin ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Yn ddiweddar, gweithredodd y Cyngor gynigion i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd Cymraeg sy'n gwasanaethu Adamsdown a Sblot, gan drosglwyddo Ysgol Glan Morfa i lety adeiladu newydd a chynyddu ei chapasiti o 210 o leoedd (1 Dosbarth Mynediad) i 420 o leoedd (2 Ddosbarth Mynediad). Oherwydd bod cyfleusterau ysgolion cynradd adeiladu newydd wedi cael eu cwblhau yn ddiweddar, rhagwelir na fyddai'r cyfleusterau ysgolion cynradd adeiladu newydd cyfrwng Saesneg yn effeithio'n negyddol ar y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Awgryma'r rhagolygon y bydd angen lleoedd ychwanegol hefyd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd cynigion ar wahân yn cael eu dwyn ymlaen i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd Cymraeg ym mhob dalgylch ysgolion uwchradd Cymraeg.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ehangu darpariaeth ysgolion yn cael ei symud ymlaen mewn modd strategol ac amserol.

Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo buddion addysg ddwyieithog i sicrhau bod y galw am leoedd ysgolion uwchradd trwy gyfrwng Cymru yn parhau i dyfu.

## Trefniadau Llywodraethiant

Byddai Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Feithrin Tremorfa yn parhau i weithredu fel ysgolion ar wahân gyda'u trefniadau llywodraethu a rheoli eu hunain.

Bydd cyfleoedd ar gyfer rhai cyfleusterau a rennir ar y safle y gellir eu defnyddio gan y tair ysgol.

Sefydlir cyd-bwyllgor sy'n cynrychioli Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell ac unrhyw ddarparwr ôl-16 sy'n gweithredu o'r safle i hwyluso'r broses o reoli'r safle ar y cyd.

## Cydraddoldebau

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) yn broses sy'n edrych ar bolisi, project neu gynllun i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn seiliedig ar y nodweddion a ddiogelir a nodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, newid rhyw, partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol. Daeth i'r casgliad na fyddai cau arfaethedig Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cael effaith wahaniaethol ar Grefydd, Cred neu Ddi-Gred. Byddai hyn yn cael ei liniaru gan newidiadau i bolisïau a threfniadau derbyn ysgolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig lleol. Gall pellteroedd teithio gynyddu i blant yn ardaloedd Adamsdown a Sblot sy'n dymuno cael mynediad i addysg mewn ysgol gynradd Gatholig.

Adolygir yr asesiad hwn ar ôl yr ymgynghoriad ac ar bwyntiau allweddol pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, byddai asesiad effaith cydraddoldeb arall yn cael ei gynnal.

Byddai hwn yn nodi hygyrchedd i'r safle ysgol uwchradd adeiladu newydd. Byddai'r asesiad effaith cydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu fel BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladau perthnasol.

## Effaith ar y gymuned

Ystyriodd yr Archesgobaeth effaith ehangach y bwriad i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban.

Mae'r Archesgobaeth yn cydnabod bod eglwysi ac ysgolion Catholig wrth galon cymunedau Catholig ac mae'n cydnabod y pryder y gall cael gwared ar un ansefydlogi a/neu danseilio'r ddarpariaeth ffydd yn gyffredinol.

Mae, a bydd, eglwysi Catholig wrth galon cymunedau Catholig yng Nghaerdydd.

Mae nifer o eglwysi ledled yr Esgobaeth nad oes ganddynt ysgol Gatholig yn eu plwyfi. Fodd bynnag, mae'r dathliadau ffydd allweddol ym mywydau eu plant, fel y cymun sanctaidd cyntaf a bedydd esgob yn dal i gael eu dathlu yn eu 'heglwys gartref'. Fel arfer, mae staff a phenaethiaid yn mynychu dathliadau'r cymun sanctaidd cyntaf a bedydd esgob ym mhob un o'r plwyfi yn nalgylch eu hysgol.

Wrth ystyried y posibilrwydd o gael effaith ar y gymuned ehangach o ganlyniad i gynnig, ystyrir y canlynol: Mannau Agored Cyhoeddus, parcdir, y defnydd presennol o gyfleusterau ysgol gan y gymuned, tagfeydd sŵn a thraffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol os yn bosibl.

Yn dilyn codi adeiladau ysgol newydd a dymchwel yr Ysgol Uwchradd Willows bresennol, byddai parc llinellog yn cael ei greu yn ymestyn o Barc Tremorfa i safle presennol Ysgol Uwchradd Willows. Byddai hyn yn cefnogi disgyblion, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol sy'n dymuno teithio rhwng y safleoedd trwy ddulliau llesol gan gynnwys beicio, sgwtera a cherdded.

Mae trefniadau ffurfiol yn bodoli ar hyn o bryd i Glwb Rygbi St Alban ddefnyddio Parc Tremorfa. Defnyddir y parc hefyd ar gyfer hamdden anffurfiol, gan gynnwys cerdded cŵn. Codwyd pryderon yn y gymuned leol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y parc ac mewn man agored cyhoeddus arall.

Byddai trosglwyddo'r Ysgol Uwchradd Willows estynedig i Barc Tremorfa yn caniatáu i Glwb Rygbi St Alban barhau ddefnyddio'r caeau ffurfiol sydd wedi'u marcio yn ystod a thu hwnt i'r cyfnod adeiladu, ac i elwa ar fynediad i gaeau glaswellt ac i gae 3G ar y safle ysgol pan fydd wedi'i gwblhau.

Byddai'r ailddatblygiad yn caniatáu i Glwb Rygbi St Alban gadw mynediad i'w tŷ clwb presennol. Rhoddir ystyriaeth i ddyluniad safle'r ysgol i ddefnyddio lleoedd parcio ceir yn effeithlon i wasanaethu'r ysgolion a'r clwb.

Byddai'r cyfleusterau ar safle presennol Ysgol Uwchradd Willows a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Glwb Pêl-droed Bridgend Street yn cael eu cadw, a chytundeb newydd yn cael ei wneud i alluogi defnydd parhaus pe dymunir gan y grŵp.

Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleusterau a rennir mewn ysgolion sydd â ffocws cymunedol yw:

- darparu cyfleoedd i'r gymuned leol a sefydliadau chwaraeon gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i wella iechyd a datblygu eu sgiliau, yn enwedig ymysg grwpiau cyfranogwyr defnydd isel;
- gweithredu yn unol â'r agenda genedlaethol ar gyfer chwaraeon gan gymryd i ystyriaeth strategaethau a fabwysiadwyd yn genedlaethol;
- creu agweddau cadarnhaol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol gan bobl ifanc a lleihau'r gyfradd sy'n rhoi'r gorau i gyfranogi mewn chwaraeon gydag oed;
- cynyddu nifer y bobl o bob oed a gallu sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol gan gynnwys pobl ag anableddau;
- defnyddio'r cyfleusterau i annog ystod, ansawdd a nifer y cysylltiadau clybiau chwaraeon ysgol ac i ysgogi cystadleuaeth sy'n cynnwys pobl ifanc ac oedolion;
- darparu mynediad fforddiadwy i'r cyfleusterau a bod yn hunan-ariannu a chost niwtral yn y lle cyntaf, gan greu incwm cynaliadwy i'r ysgol yn y dyfodol.

Bydd y Cyngor yn mwyafu'r Buddion Cymunedol lle bo modd, gan gynnwys buddion i blant a phobl ifanc, trwy ei arferion caffael, ac mae wedi nodi hyn yn benodol fel un agwedd ar ei raglen i hyrwyddo hawliau plant fel aelod cyfranogol o Raglen Partner Hawliau Plant UNICEF.

Bwriada'r Cyngor weithio'n rhagweithiol gyda chontractwyr a'r gymuned leol i ddatblygu mentrau caffael Buddion Cymunedol a chyfnewid arferion gorau lle bynnag y bo modd.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau bod eu cadwyni cyflenwi yn ymwybodol o ddyheadau'r Cyngor ar gyfer Buddion Cymunedol a sicrhau cymwysterau cyflenwyr yn hyn o beth. Bydd hyn yn diogelu, lle bo'n bosibl, dyhead y Cyngor i sicrhau bod Buddion Cymunedol yn cael eu hintegreiddio i'r fanyleb.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddion Cymunedol, bydd y Cyngor yn ymdrechu i gyrraedd y targedau meincnod.

Y pedwar targed yw:

- Swyddi
- Prentisiaethau
- Ymgysylltiad â Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)
- Hyfforddiant

## Aflonyddu Posibl i Ddisgyblion

Byddai disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell yn aros ar eu safleoedd presennol nes bod y cyfleusterau ysgol newydd yn barod.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio fel nad aflonyddir ar arweinwyr a llywodraethiant ysgolion, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol. Mae'r Cyngor yn brofiadol o ran rheoli projectau newid tebyg a bydd yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o fannau eraill, gan weithio'n agos gyda'r ysgolion dan sylw i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r holl ddisgyblion.

## Trefniadau dros dro

Cedwir y rhagamcaniadau disgyblion dan sylw, a byddai trefniadau interim yn cael eu cyflwyno fel bo'r angen i sicrhau addysg barhaus i ddisgyblion ym mhob un o'r ysgolion.

## Beth yw manteision y cynnig?

Byddai'r cynigion yn:

- Ysbrydoli ac adfywio'r ysgolion a'r gymuned leol drwy'r cyfleusterau 21ain Ganrif newydd a phartneriaethau gwell
- Darparu cyfleusterau newydd ar safle a rennir, wedi'i gyfarparu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl rhwng 4 a 18 oed mewn cyfleusterau o ansawdd da
- Darparu adeiladau newydd sy'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Galluogi cysylltiadau gwaith agosach i wella trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol a helpu i osgoi'r gostyngiad traddodiadol mewn cyflawniad ar adeg trosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd y mae rhai disgyblion yn ei brofi
- Sicrhau ystod ychwanegol o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau y gall disgyblion oed cynradd ac uwchradd eu rhannu mewn gwahanol leoliadau ar yr un safle
- Rhoi gwell cyfle i bawb yn y gymuned ddefnyddio'r adnoddau a'r cyfleusterau
- Galluogi cydweithredu ar draws y sectorau ar yr un campws, gan hwyluso'r cysylltiad rhwng addysg a gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd plant a phobl ifanc ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc
- Cynyddu cyfran y disgyblion ysgolion uwchradd yn Adamsdown a Sblot sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgol yn eu cymuned leol
- Lleihau hyd y teithiau a gymerir gan ddysgwyr ysgolion uwchradd ac ôl-16 sy'n cymudo i ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant eraill
- Galluogi rhai disgyblion yn y sector uwchradd i fynd gyda brodyr a chwiorydd iau i'r ysgol gynradd ar safle a rennir.

## Anfanteision posibl y cynnig

Byddai'r bwriad i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn golygu:

- y byddai'r disgyblion hynny sydd ar y gofrestr yn yr ysgol yn 2021 ac sydd eisiau parhau ag addysg ffydd mewn ysgol Gatholig, yn y rhan fwyaf o achosion, yn teithio ymhellach i'r ysgol ac mewn rhai achosion, byddent angen cludiant o'r cartref i'r ysgol.
- efallai y bydd angen i rai disgyblion yn y dyfodol sy'n preswylio mewn rhannau o Adamsdown a Sblot, sy'n dymuno cael mynediad i addysg ffydd mewn ysgol Gatholig, deithio ymhellach i'r ysgol.
- byddai llai o ysgolion a lleoedd Catholig ar gael yng Nghaerdydd yn gyffredinol.

Byddai trosglwyddiad arfaethedig o Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Uwchradd Willows i safle Parc Tremorfa yn golygu, mewn rhai achosion, y byddai'n ofynnol i ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol.

Byddai'r gostyngiad arfaethedig yn ystod oedran Ysgol Gynradd Baden Powell yn golygu, yn ystod y cyfnod trosglwyddo, y byddai rhai teuluoedd gyda phlant oed meithrin a chynradd yn mynychu ysgolion oddeutu 0.4 milltir ar wahân. Felly byddai angen i'r ysgolion wneud trefniadau priodol i sicrhau bod yr effaith ar deuluoedd yn cael ei lleihau.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, byddai gostyngiad dros dro yn y man agored cyhoeddus cyffredinol wrth i adeiladau newydd gael eu cwblhau ac ardaloedd allanol gael eu huwchraddio. Byddai'r Cyngor yn ceisio cynnal mynediad i'r mwyafswm o le allanol yn ystod y cyfnod hwn.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig

- Mae perygl na fydd y cynnydd rhagamcanol yn nifer y disgyblion yn digwydd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd a thai newydd arfaethedig mewn nifer o ardaloedd yng Nghaerdydd, mae hyn yn ymddangos yn annhebygol. Bydd y Cyngor yn adolygu ei ragamcaniadau ac yn ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen;
- Efallai y bydd cyfyngiadau datblygu sydd heb eu nodi eto. Pe bai unrhyw un yn amlwg, yna fe allai fod ag oblygiadau o ran cost ac oedi. Cynhelid arolygon safle ac adroddiadau geo-dechnegol. Byddai'r rhain yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch hyn ac yn llywio strategaethau rheoli;
- Efallai na ellir cyflawni'r cynnig os na chaiff arian cyfalaf Llywodraeth Cymru ei sicrhau yn ystod y cam achos busnes;
- Pe na bai'r Cyngor yn cael yr arian hwn gan Lywodraeth Cymru, yna byddai'r Cyngor yn gwbl gyfrifol am yr holl gostau sy'n ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos hwn, byddai opsiynau buddsoddi yn cael eu hadolygu i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion.

## Opsiynau eraill

### Gwneud Dim

- Nid yw gwneud dim yn opsiwn ymarferol. Dim ond ymdrin â materion iechyd a diogelwch fyddai ymdrin â'r ôl-groniad cynnal a chadw. Ni fyddai'n darparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

### Ailwampio adeiladau presennol

- Byddai ailwampio yn ymdrin ag anghenion capasiti yn Ysgol Uwchradd Willows ar gyfer ei phoblogaeth dalgylch ond ni fyddai'n arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg sydd eu hangen yn yr oed uwchradd dros ardal ehangach.  Ni fyddai'n economaidd adnewyddu adeilad cyflwr D yn Ysgol Uwchradd Willows nac ailwampio Ysgol Gynradd Baden Powell. Ni fyddai'n gwella'r amgylchedd dysgu yn sylweddol. Efallai y bydd materion cynnal a chadw yn parhau yn y tymor hir, a fyddai'n peryglu'r gwerth am arian y gellir ei gyflawni trwy fuddsoddi arian cyhoeddus.

### Amnewid yr adeiladau ar safleoedd presennol

- Mae safle Ysgol Uwchradd Willows o fewn parth llifogydd ac felly nid yw'n ymarferol i gael ei ddatblygu ar gyfer ysgol ar hyn o bryd. Ar ôl adeiladu'r wal amddiffyn arfordirol newydd arfaethedig, rhagwelir y byddai arolygon yn cael eu comisiynu er mwyn i ffin y llifogydd gael ei hailasesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Er y gallai'r safle fod ar gael o bosibl i ddarparu ar gyfer adeilad ysgol newydd yn y dyfodol, ni ellid cyflwyno cynigion ar gyfer adeiladau ysgol newydd tan o leiaf 2023. Pe bai adeiladau newydd yn cael eu codi ar safle presennol yr ysgol, mae'n annhebygol y byddai disgyblion yn Adamsdown a Sblot yn elwa o feddiannu'r rhain tan 2026 neu 2027.
- Byddai darparu adeilad ysgol newydd ar safle presennol yr ysgol yn golygu y byddai'n rhaid i ddisgyblion gael eu lletya oddi ar y safle trwy gydol unrhyw waith adeiladu newydd, gan arwain at aflonyddwch sylweddol i addysg a chostau uwch.

Ysgol Hamadryad



# Cwestiynau Cyffredin

**Beth fyddai'r cynnig yn ei olygu i blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig St Alban ar hyn o bryd?**

Pe bai'r cynnig yn cael ei symud ymlaen, byddai Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cau o Awst 2021. Byddai digon o leoedd ar gael i'r plant hynny yn yr ysgol yn yr Ysgol Gynradd Baden Powell estynedig.

Byddai angen i blant sy'n dymuno parhau ag addysg mewn ysgol Gatholig wneud cais i ysgol gynradd amgen.

**Pam fyddai angen i rieni plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig St Alban wneud cais am le mewn ysgol arall? Pam na all y Cyngor neu'r Esgobaeth warantu mynediad i ysgol arall?**

Trefnir derbyniadau i ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd gan y Cyngor. Trefnir derbyniadau i ysgolion ffydd yng Nghaerdydd, gan gynnwys pob ysgol Gatholig, gan Gorff Llywodraethu pob ysgol. Nid yw Cod Derbyn Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r awdurdodau derbyn hyn gadw lleoedd na gwarantu derbyn disgyblion yn y dyfodol.

Fodd bynnag, byddai capasiti arfaethedig yr Ysgol Gynradd Baden Powell estynedig o 630 o leoedd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer pob plentyn yn Baden Powell ac i ddarparu ar gyfer pob disgybl o St Alban.

**A yw ysgolion Catholig eraill o'r un safon?**

Gallwch ddod o hyd i adroddiadau arolygu ysgolion ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Er bod materion wedi'u codi ynghylch Ysgol Gynradd San Pedr, mae'r ysgol hon yn ysgol sy'n gwella, ac mae wedi ymdrin, neu yn ymdrin, â'r holl faterion a godwyd yn yr arolygiad diweddar.

Yn ddiweddar, derbyniodd St John Lloyd adroddiad arolygu da gan Estyn.

**Mae llawer o newidiadau yn digwydd ar unwaith, mae'r offeiriaid wedi newid/yn newid, cynigir cau'r ysgol, beth sy'n dod nesaf, cau eglwysi?**

Ar draws Esgobaeth Caerdydd, fel mewn esgobaethau eraill, mae offeiriaid yn symud o un plwyf i'r llall. Yn aml mae hyn oherwydd ymddeoliad neu salwch, ond hefyd i ddatblygu profiad y rhai a ordeiniwyd yn ddiweddar i'r offeiriadaeth. Yn ystod 2019, mae sawl plwyf arall yn yr Esgobaeth wedi, neu yn, ffarwelio â'u hoffeiriad presennol ac yn paratoi i groesawu un newydd.

# Cwestiynau Cyffredin

**A aflonyddir ar addysg disgyblion o ganlyniad i'r cynigion**

Byddai disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell yn aros ar eu safleoedd presennol nes bod cyfleusterau'r ysgol newydd eu cwblhau.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio fel nad aflonyddir ar arweinwyr a llywodraethiant ysgolion, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.  Mae'r Cyngor yn brofiadol o ran rheoli projectau newid tebyg a bydd yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd o fannau eraill, gan weithio'n agos gyda'r ysgolion dan sylw i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r holl ddisgyblion.

**Beth fydd yn digwydd i safleoedd presennol Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell?**

Byddai safle presennol Ysgol Uwchradd Willows yn rhan o barc llinellog newydd, a fyddai'n cymryd lle'r ardal ym Mharc Tremorfa a ddefnyddir gan yr adeiladau ysgol gynradd ac uwchradd newydd arfaethedig.

Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i'r defnydd o safle Ysgol Gynradd Baden Powell yn y dyfodol pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

**Beth yw'r amserlen fwriadedig ar gyfer y cynigion?**

Y bwriad yw y byddai Ysgol Uwchradd Willows yn cael ei hehangu a'i throsglwyddo i lety adeiladu newydd ar Barc Tremorfa o fis Medi 2023.

Byddai Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cau o fis Awst 2021.

Byddai Ysgol Gynradd Baden Powell yn cael ei hehangu o fis Medi 2021 a'i throsglwyddo i lety adeiladu newydd ar Barc Tremorfa o fis Medi 2023.

Byddai Ysgol Feithrin Tremorfa yn cael ei hehangu o fis Awst 2021.

**A fydd gwisg ysgol newydd?**

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i wisgoedd ysgol yn deillio o'r cynigion hyn.

# Y camau nesaf, sut i fynegi eich barn a ffurflen adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth o'r ymgynghoriad hwn.  Wedyn, bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn ar gael i unrhyw un ei weld/ lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Gallwch hefyd gael copi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os cytunir ar y cynigion i fwrw ymlaen yn dilyn ymgynghoriad, mae nifer o gamau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor fynd drwyddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 20 isod:

**Tabl 20: Camau pellach** (Gall yr amserlen hon fod yn destun i newid.)

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori | 16 Medi - 4 Tachwedd 2019 |
| Adroddiad ymgynghori yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Ionawr 2020 |
| Dyddiad disgwyliedig ar gyfer dechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu, pan gyhoeddwyd hysbysiad statudol (pan y gellir gwrthwynebu'n ffurfiol) | Ionawr 2020 |
| Dyddiad disgwyliedig ar gyfer diwedd y Cyfnod Gwrthwynebu | Chwefror 2020 |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau | Mawrth 2020 |
| Penderfyniad ar y cynnig gan Weinidogion Cymru | Haf 2020 |

### Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 16 Medi 2019 ac yn gorffen ar 4 Tachwedd 2019. Gweler tudalen 5 am ragor o fanylion ynghylch sut i ymateb a chyflwyno eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi unrhyw hysbysiadau statudol (yn destun i gymeradwyaeth). Gallwch hefyd ofyn am gopi caled o'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn trafod y materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori a rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau gyda'r newidiadau, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau yn mynd yn eu blaenau.

## Hysbysiad(au) Statudol

Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol o gynnig terfynol. Rhaid i’r Cabinet gymeradwyo cyhoeddi’r hysbysiad statudol. Dim ond ar ôl i’r Cabinet dderbyn adroddiad ar yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad y byddai hyn yn cael ei ystyried. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai’r Cyngor yn cyhoeddi’r hysbysiad statudol ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o’r hysbysiad yn y brif fynedfa i’r ysgol(ion)/ safle(oedd) yr effeithir arnynt gan yr hysbysiad, neu gerllaw. Byddai ysgolion yr effeithir arnynt hefyd yn cael copïau o’r hysbysiad i’w rhoi i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gallai’r ysgol hefyd ddosbarthu’r hysbysiad trwy e-bost). Mae’r hysbysiad yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd eisiau gwrthwynebu wneud hynny. Rhaid ysgrifennu’r gwrthwynebiadau. Rhaid eu hanfon at y Cyngor o fewn y dyddiadau a roddir ar yr hysbysiad.

## Adroddiad Gwrthwynebiadau

Os derbynnir gwrthwynebiadau i’r hysbysiad statudol cyhoeddedig, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau hyn ac ymateb y Cyngor iddynt.  Cyhoeddir yr Adroddiad Gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor.

## Penderfynu ar y cynigion

Mae’r cynigion hyn yn effeithio ar ddarpariaeth chweched dosbarth ac felly byddant angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Golyga hyn y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch p’un a yw’r newidiadau yn mynd ymlaen ai peidio.

O fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cyngor yn anfon copïau o’r gwrthwynebiadau statudol yn ogystal â’r adroddiad gwrthwynebiadau i Weinidogion Cymru.

Gall Gweinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo’r cynigion gydag addasiadau.

Fel arfer, ni fyddai addasiadau ond yn cynnwys newidiadau i faterion fel amseriad gweithredu neu niferoedd derbyn.  Nid yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud addasiadau a fyddai mewn gwirionedd yn ffurfio cynnig newydd yn lle’r cynnig a gyhoeddwyd.  Cyn gwneud unrhyw addasiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cynigydd a’r Corff/Cyrff Llywodraethu a’r Awdurdod Lleol perthnasol (lle nad hwy yw’r cynigwyr), a chael cytundeb y cynigydd i’r addasiad.

Gellir gwneud cymeradwyaeth yn amodol ar ddigwyddiad penodol.

## Hysbysu’r Penderfyniad

Yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i bawb yr effeithir arnynt gan y cynnig beth yw’r penderfyniad a wnaed. Caiff ei gyhoeddi’n electronig ar wefan y Cyngor.

# Dweud Eich Dweud!

**Mae eich barn yn bwysig. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynnig trwy:**

- Gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon. Rhoddir y cyfeiriad i'w hanfon ar waelod y ffurflen.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot

Os yw'n well gennych, gallwch anfon e-bost o'ch barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Llun 4 Tachwedd 2019. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

**1. A ydych yn ymateb fel: Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

○ Rhiant
○ Disgybl
○ Llywodraethwr
○ Aelod Staff
○ Arall (manylwch) ____________________

**2. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Uwchradd Willows?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**3. A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu darpariaeth ôl–16?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**4. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Gynradd St Alban?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**5. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Gynradd Baden Powell?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**6. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ddileu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Baden Powell?**

○ Ydw ○ NNac ydw

**7. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r nifer o leoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Tremorfa ac i ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**8. Os ydych yn cefnogi neu ddim yn cefnogi unrhyw un o'r cynigion, esboniwch pam isod**

**9. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu gynigion amgen i'r cynigion, rhowch fanylion isod ynghyd â pham y credwch eu bod yn welliant ar yr hyn a gynigir.**

**10. Oes unrhyw wasanaethau eraill yr ydych yn credu ddylai gael eu darparu yn yr ysgolion, yr hoffech i ni eu hystyried? (e.e. opsiwn i brynu gofal plant cofleidiol, clwb brecwast, clwb gwyliau ayb)**

**11. Unrhyw sylwadau eraill?**

Enw: ____________________

Cyfeiriad: ____________________ Cod post: ____________________

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Os ydych yn dymuno cael eich hysbysu am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, rhowch eich cyfeiriad e-bost. Os nad ydych yn darparu cyfeiriad e-bost, ni allwn eich diweddaru.

## Diolch am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth yr Ysgol, Ystafell 422, Neuadd y Sir, CF10 4UW ddim hwyrach na **4 Tachwedd 2019**.

Bydd Cyngor Caerdydd yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych uchod yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth a roddir i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gall y Cyngor ei defnyddio neu ei datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen pwrpas prosesu'r data personol i gyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid ei gwneud yn gyhoeddus, ond byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod unigolyn fel enw a chyfeiriad yn cael ei ddileu.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor: www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx

# Atodiadau



# Atodiad 1

## Argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Adamsdown a Sblot.

Mae'r nifer o blant sy'n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Willows sy'n manteisio ar leoedd ysgol gynradd yn y flwyddyn Derbyn yn 348 fesul grŵp blwyddyn ar gyfartaledd. Amrywiodd hyn rhwng 334 a 356 o ddisgyblion yn y cyfnod 2013-2018. Rhagwelir nifer debyg o blant yn y dyfodol o'r tai presennol. Fodd bynnag, nid oes data ar gael eto ar gyfer plant sy'n dechrau addysg gynradd y tu hwnt i 2021/22.

**Tabl 6: Nifer diweddar a rhagamcanol sy'n manteisio ar leoedd fesul disgyblion oed Derbyn sy'n preswylio yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows, mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, Ffydd neu gyfrwng Cymraeg ledled y ddinas**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymunedol cyfrwng Saesneg | 212 | 220 | 219 | 205 | 231 | 223 | 212 | Ddim ar gael eto |
| Ffydd | 103 | 94 | 95 | 91 | 103 | 99 | 94 | Ddim ar gael eto |
| Cymunedol cyfrwng Cymraeg | 33 | 42 | 42 | 38 | 43 | 42 | 40 | Ddim ar gael eto |
| Cyfanswm | 348 | 356 | 356 | 334 | 377 | 363 | 346 | Ddim ar gael eto |

Er bod y galw cyffredinol am leoedd ysgolion cynradd yn sefydlog, mae'r galw yn amrywio rhwng dalgylchoedd ysgolion cynradd unigol.

Mae'r nifer rhagamcanol o ddisgyblion sy'n dechrau mewn Dosbarth Derbyn yn yr ardal yn amrywio, ond mae ar lefelau tebyg yn y tri chymeriant nesaf. Awgryma hyn bod nifer y lleoedd ysgol a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn ardal Adamsdown a Sblot yn gytbwys.

Noda Tabl 7 (isod) y nifer diweddar a rhagamcanol sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn ôl disgyblion oed Derbyn sy'n byw ym mhob un o'r dalgylchoedd ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows.

**Tabl 7: Nifer diweddar a rhagamcanol sy'n manteisio ar leoedd fesul disgyblion oed Derbyn sy'n preswylio ym mhob dalgylch ysgol gynradd o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Willows, mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg ledled y ddinas**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dalgylch Ysgol Gynradd Adamsdown | 40 | 34 | 47 | 49 | 52 | 58 | 59 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Baden Powell | 69 | 100 | 93 | 75 | 91 | 90 | 73 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Moorland | 53 | 50 | 47 | 54 | 39 | 38 | 38 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Stacey | 50 | 36 | 32 | 27 | 49 | 37 | 42 |
| Cyfanswm | 212 (7.1FE) | 220 (7.3FE) | 219 (7.3FE) | 205 (6.8FE) | 231 (7.7FE) | 223 (7.4FE) | 212 (7.1FE) |

Mae’r nifer rhagamcanol sy’n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd ysgolion cynradd Baden Powell a Stacey yn fwy na’r nifer o leoedd sydd ar gael (60 a 30 yn y drefn honno). Mae’r galw rhagamcanol cyfun am ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Willows ychydig yn fwy na’r nifer cyfun o leoedd sydd ar gael (210) oherwydd bod rhai teuluoedd yn dewis lleoedd mewn ysgolion cyfagos.

Noda Tabl 8 (isod) y nifer diweddar a fanteisiodd ar leoedd mewn ysgolion cynradd Catholig yn ôl disgyblion oed Derbyn sy’n byw ym mhob un o’r dalgylchoedd ysgolion cynradd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Willows.

**Tabl 8: Nifer diweddar a rhagamcanol sy’n manteisio ar leoedd fesul disgyblion oed Derbyn sy’n preswylio ym mhob dalgylch ysgol gynradd o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Willows, mewn ysgolion cynradd ffydd ledled y ddinas**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dalgylch Ysgol Gynradd Adamsdown | 28 | 22 | 25 | 29 | 31 | 34 | 35 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Baden Powell | 41 | 40 | 37 | 32 | 39 | 38 | 31 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Moorland | 13 | 11 | 12 | 13 | 9 | 9 | 9 |
| Dalgylch Ysgol Gynradd Stacey | 21 | 21 | 21 | 16 | 29 | 22 | 24 |
| Cyfanswm | 103 | 94 | 95 | 90 | 108 | 103 | 99 |

# Atodiad 2

Dengys Tabl 10 y nifer o leoedd gwag sydd ar gael mewn ysgolion Catholig eraill yng Nghaerdydd.

**Tabl 10: Nifer ar y Gofrestr a chyfanswm capasiti lleoedd gwag mewn ysgolion Catholig – Derbyn i Flwyddyn 6 (NOR Mai 2019)**

| | | Grŵp Blwyddyn | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | PAN | R | Yr 1 | Yr 2 | Yr 3 | Yr 4 | Yr 5 | Yr 6 | Cyfanswm disgyblion | Capasiti | Lleoedd gwag | % Lleoedd gwag |
| Crist y Brenin | 30 | 22 | 28 | 31 | 30 | 30 | 30 | 42 | 213 | 210 | -3 | -1.4% |
| Teulu Sanctaidd | 35 | 19 | 23 | 15 | 15 | 23 | 18 | 24 | 137 | 247 | 110 | 44.5% |
| St Alban | 30 | 17 | 30 | 27 | 24 | 30 | 28 | 18 | 174 | 203 | 29 | 14.3% |
| St Bernadette | 30 | 30 | 29 | 31 | 30 | 30 | 30 | 30 | 210 | 205 | -5 | -2.4% |
| St Cadog | 45 | 45 | 36 | 42 | 48 | 39 | 44 | 43 | 297 | 315 | 18 | 5.7% |
| St Cuthbert | 22 | 19 | 12 | 20 | 21 | 24 | 19 | 13 | 128 | 149 | 21 | 14.1% |
| St Ffransis | 45 | 35 | 40 | 51 | 57 | 30 | 50 | 53 | 316 | 386 | 70 | 18.1% |
| St John Lloyd | 45 | 35 | 39 | 48 | 30 | 47 | 48 | 40 | 287 | 315 | 28 | 8.9% |
| St Joseph | 30 | 28 | 20 | 29 | 29 | 26 | 30 | 30 | 192 | 210 | 18 | 8.6% |
| St Fair | 37 | 33 | 27 | 28 | 38 | 30 | 39 | 37 | 232 | 261 | 29 | 11.1% |
| St Padrig | 45 | 44 | 44 | 41 | 44 | 44 | 45 | 38 | 300 | 315 | 15 | 4.8% |
| St Pedr | 75 | 55 | 59 | 72 | 62 | 73 | 70 | 73 | 464 | 540 | 76 | 14.1% |
| St Philip Evans | 52 | 46 | 51 | 49 | 47 | 54 | 63 | 54 | 364 | 365 | 1 | 0.3% |
| Cyfanswm | 521 | 428 | 438 | 484 | 475 | 480 | 514 | 495 | 3314 | 3721 | 407 | 10.9% |

Ysgol Uwchradd y Dwyrain

